

Taith Tractorau a Noson o Adloniant er cof am Ianto Jenkins



Guto Jenkins, Rhosfach Efailwen a'i deulu a ffrindiau yn cyflwyno siar o £27,000 a godwyd ar y 'Yellow Heart Tractor Run' er cof am ei fab Ianto.

Hoffai Guto Jenkins, Rhosfach a'r teulu ddiolch yn arbennig i'r cyhoedd am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau hael, nid yn unig drwy'r holl arian dderbyniwyd, ond am yr holl gymorth a'r gwasanaeth rhoddodd pawb er mwyn sicrhau diwrnod arbennig o lwyddiannus ar ddydd a nos Sadwrn, Ebrill 9fed. Gwnaeth dros 500 o gerbydau fynd allan ar y daith, dros eu hanner yn dractorau, ond hefyd ceir, faniau, beiciau modur a lorïau.

Diolch o galon i'r artistiaid canlynol am ddarparu adloniant gwyh gyda'r nos :- Dafydd Pantrhod a'r band, Sioned Llewelyn, Jessica Robinson, Clive Edwards, Cor Clwb Rygbi Crymym, Sharon Woolley, Iwan Ward ac Alun Griffiths. Diolch yn arbennig i Aled (bach) Davies, Jason Davies ac Alanda Williams a wnaeth yn siwr fod y cyfan yn mynd yn iawn.

Diolch hefyd i'r unigolion a'r cwmnïoedd canlynol a roddodd ei gwasanaeth am ddim :- Midway Motors, Lewlec, Boomerang, Mark Jukes, Michael Murphy, Speedy Milford, Clos yr Eithin, Ty Bach Twt, JK Lewis, Spar Trefdraeth, Gary Evans, Dorian Phillips, J J Morris, Frenni Transport, Bocs Bwyd, George Penwernddu, Tesco Aberteifi, Johnny Jones, ATB Davies, Custom Beds, Young Bros, Owen Marks, NFU San Cler, Des Dray a'r ffotograffwyr ac Andy Sheppard.

Codwyd cyfanswm o £35,000, llai costau o £8,000 a cyflwynwyd cyfanswm o £27,000 i'r 10 elusen, wedi ei rannu fel a ganlyn :-

Ambiwlans Awyr Cymru - £6,500
Ymatebydd Cyntaf Crymym - £3,000
Cronfa Fynwent Capel Nebo - £3,000
Profedigaeth Plant Sandy Bear - £3,000
2 Wish - £3,000
Tir Dewi - £2,500

Sefydliad DPJ - £2,500

Cylch Meithrin Hermon - £1,500

Cylch Meithrin Crymym - £1,000

Diffiriliwr Efailwen - £1,000



Lluniau: Cefin Vaughan

CYMDEITHAS YR HOELION WYTH

Dadorchuddio plac i anrhydeddu

Roy a Rhoswen Llewellyn

yng Nghanolfan Gymdeithasol

Ffynnonwen, Login

Nos Iau, Mehefin 30ain

am 7 o'r gloch

Dewch i ddangos eich gwerthfawrogiad i ddau arbennig sydd wedi cyfrannu oes o wasanaeth i'r broydd hyn.

Y CARDI BACH

Golygydd,
Cadeirydd a Eurfyl Lewis
Dosbarthwr 01994 419495

Is-gadeirydd: Iola Wyn
 07870 100831

Ysgrifennydd: Beti Wyn James
 01994 230966

Trysorydd,
Ffotograffydd,
Dosbarthwr
drwy'r post a Roy Llewellyn
Hysbysebion: 01994 448283

Trysorydd y Rhian White
Clwb '200': 01994 231338

Cysodwyr: Wyn a Meirwen
 Evans
 01994 448447

Cystadleuaeth John Arfon Jones
 01994 240536

Cornel y Albie Abbott
Dysgwyr:: 01239 831641

Tudalen y Plant: Llinos Mair Thomas

Llewyrch i'm Llwybr: Eurfyl Lewis

Cornel Coginio: Winnie James
 01239 831754

Cornel Llên: Nansi Evans
 01994 448392

Cornel Garddio: John Davies
 01994 240059

Newyddion, Lluniau, Erthyglau
 a Hysbysebion i'w hanfon erbyn
10fed o bob mis, drwy e-bost os
 yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin,
 Cwmfelin Mynach, Hendygywyn-ar-
 Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com

Nid yw'r Bwrdd Golygyddol
 o angenrheidrwydd yn
 cytuno ag unrhyw farn a
 gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan: Gwasg Aeron Cyf.
 Aberaeron. 01545 571115

CYMRAG



Ariennir yn
 rhannol gan
 Lywodraeth
 Cymru'.

Colofn y Mis

gan Iola Wyn, San Cler

Daw dydd y bydd mawr y rhai bychain.

Does dim byd gwaeth na theithio i bellafion byd a rhywun yn gofyn i mi o ble dwi'n dod. A finne'n ateb gyda balchder - Cymru, Wales, Pays de Galles ? Gales ?!... A llygaid gwag yn edrych arnai, wynebau syn a phennau'n dechrau troi.

Er taw Gwalia yw ein heulwen ni, y winllan wen a roed i'n gofal, er y balchder ein bod ni yma o hyd er gwaethaf pawb a phopeth, mae llawer mwy i Gymru na gwlad y gân. Ac mae'n hen bryd bod bobol o wledydd ar hyd a lled y byd yn gwybod yn union ymhle mae Cymru ar fap, a'r hyn sy'n arbennig am ein cornel fach ni o'r byd, o'n tirlun, i'n hanes a'n traddodiadau, ein diwylliant, ein pobl a'n hiaith.

A dyna pam bod buddugoliaeth pêl-droedwyr Cymru yn Stadiwm Dinas Caerdydd nos Sul, Mehefin y 5ed, 2022 mor bwysig, ac nid yn 95 munud o gicio pêl yn unig.

Anghofier 1958 pan gyrhaeddodd Cymru Gwpan y Byd y tro diwethaf. Mae'r 64 o flynyddoedd o aros ar ben.

Mae yna fanteision ariannol wrth gwrs, ac mi allai pêl-droed Cymru fod £8 miliwn ar ei hennill drwy gyrraedd Cwpan Y Byd, yn ôl arbenigwyr. Ac wrth gwrs, mae'n fodd o annog mwy o bobl i ddod i Gymru, ac i wario arian yma. Ac wrth lanio yn Qatar fis Tachwedd, fe fydd Cymru yn torri record drwy fod y wlad sydd wedi dychwelyd i rowndiau terfynol Cwpan Y Byd wedi'r bwlch hiraf. Tan nawr, roedd y record honno ym meddiant Yr Aifft (1934-1990) a Norwy (1938-1994) a arhosodd am 56 o flynyddoedd. Felly, dyma awr fawr Cymru, yn oes aur ei phêl-droed.

Gyda phoblogaeth o 3 miliwn, Cymru fydd y wlad leiaf i gymhwyso ar gyfer y bencampwriaeth yn Qatar fis Tachwedd. A chyn i'r cefnogwyr pybyr fy nghywiro, 'dw i'n ymwybodol fod poblogaeth Qatar fymryn yn llai, ond dyden nhw ddim wedi gorfod cystadlu i gyrraedd y rowndiau terfynol a hwythau'n cynnal y bencampwriaeth!

Bychan yw'n poblogaeth, ein hadnoddau, ein cyfoeth a'n carfan, ond mae'r ymdrech a'r angerdd yn anferthol. Ac roedd hynny'n ddigon i sicrhau lle ar lwyfan rhyngwladol mwya'r byd.

Cwpan y Byd a'r Gemau Olympaidd yw'r ddau achysur sy'n denu'r mwyaf o wylwyr yn fyd-eang. Ac wrth gwrs, dyw Cymru ddim yn cael cystadlu fel gwlad yn y Gemau Olympaidd. Fe wylodd dros hanner poblogaeth y byd Gwpan Y Byd yn 2018. Yn 2022, bydd canran debyg yn gwylio Cymru. Meddylwch o ddifri' – HANNER poblogaeth y byd.

Mae cymaint i'w ennill yn sgil hynny. Trwy ymdrechion Cymdeithas Bêl-droed Cymru, o dan arweiniad Ian Gwyn Hughes, mae'r Gymraeg yr un mor flaenllaw â'r Saesneg pan fo Cymru'n chwarae. Ac fe fydd hi eto yn Qatar. Fe ddaw hanner poblogaeth y byd i wybod ein bod ni'n wlad fechan, llawn angerdd, sydd â iaith yr ydym yn ei gwarchod, ei hanwesu a'i thrysori.

Ac o fewn deuddydd i'r rhyddhad a'r dathliad yn Stadiwm Dinas Caerdydd, roedd y fuddugoliaeth yn dechrau creu argraff y tu hwnt i'r cae pêl-droed, gyda Dafydd Iwan ac Ar Log, ac Yma O Hyd yn llamu i frig siartiau I Tunes. A phwy feddylie y byddai Gareth Bale, a Dafydd Iwan yn cyd-ganu o flaen llygaid y byd. Mae'r cyfan fel breuddwyd.

Pan fo cefnogwyr yn morio canu'r anthem genedlaethol, a'r anthem answyddogol bellach – “O bydded i'r hen iaith barhau” a “A bydd yr iaith Gymraeg yn fyw” yw'r llinellau sy'n cael eu bloeddio gryfa', gyda'r fath angerdd, fel bo' dagrau'n llifo ymhlith y calonnau caletaf.

GOHEBWYR LLEOL

ALMA:	Margaret Evans 01994 230761
BANCYFELIN:	Merle Jones 01267 211300 eleanormerle@icloud.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA	Parch, Beti-Wyn James beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN:	Tegwen James 01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun)	Meinir Eynon 01437 563540 meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT:	Valerie Davies 01994 448475 vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN:	Lynys Davies 01437 563319 mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH:	Jane Evans 01994 448790 teuluajames@btinternet.com
CWM MILES:	Meinir Eynon 01437 563540
CWMFELIN MYNACH:	Nansi Evans 01994 448392
EFAILWEN:	Angharad Booth Taylor 01994 419221 angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN:	Peter Crowdie 01994 230033 peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN:	Heather Jenkins 01994 240138 jenkinsh2809@gmail.com Y Parch. Guto Llywelyn (Newyddion Tabernacl) 01269 851655 gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG:	Sian Jackson 01994 240981 jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN:	Meinir Eynon 01437 563540
LLANBOIDY:	Norah Heseltine 01994 448241 sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO:	Delyth Roblin 07882 639867 delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN:	Jill Lewis 01994 419495 jill.llest@gmail.com
LLANGYNIN:	Susan Phillips 01994 231066 siwperiw@googlegmail.com
MEIDRIM:	Patsy Lewis 01994 230369 talarwen@hotmail.com
PENYBONT: PWLLTRAP:	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID:	Doreen Adams 01994 240581
RHYDWILYM:	Eilir Davies 01994 419649 eilirtrhos@btinternet.com
SAN CLER:	Beti Wyn James 01994 230966 betiwynjames@aol.com
TRELECH:	Alyson Harries 01994 484359 alysonharries@btconnect.com

Yn y funud olaf yn stadiwn Caerdydd cyn y fuddugoliaeth hanesyddol, roedd y nerfau'n rhacs, roedd gymaint i'w golli a'r pryder hyd at yr hanner eiliad ola y byddem unwaith eto yn boddi yn ymyl y lan. Nid gêm i'w mwynhau oedd hon, nid achlysur i ymlacio a gobeithio'r gorau.

Hon oedd yr awr fawr, a phe baem wedi methu, mae'n bur debyg y byddem wedi colli nifer o'r arwyr yn y garfan sydd eisoes wedi arddangos doniau rhyfeddol Cymru ar y llwyfan Ewropeaidd. A rhaid cyfeirio at un o'r aelodau mwyaf ffyddlon yn eu plith - ein Joe Allen ni yma yn y gorllewin. Mae dewiniaeth Joe ar y cae am gynifer o flynyddoedd yn rhyfeddol, yn ogystal â'i barodrwydd i siarad â'r cyfryngau yn Gymraeg yn syth wedi pob gêm, be bynnag fo'r canlyniad. Dyma yw rhinweddau gwir arwyr.

Dyw Joe Allen ddim yn glamp o foi, ond mae e'n berwi o angerdd, union yr un fath â Chymru. Mae poblogaeth ein gwrthwynebwyr cyntaf ni yn Qatar yn anferthol : Unol Daleithiau America a'i 329 miliwn o bobl ; Iran a'i phoblogaeth o 84 miliwn, heb anghofio ein cymydog dros Glawdd Offa, gyda'i phoblogaeth o 56 miliwn.

Ac yn wahanol i'r gwledydd mawrion, fydd dim pwysau, a dim i'w golli. Ond wrth gwrs, mae'r freuddwyd yn fyw hyd at y chwiban olaf, pryd bynnag y caiff honno ei chwythu.

A'r tro nesaf yr af i ar wyliau i bellafion byd, ac ateb y cwestiwn, o le dwi'n dod - pwy a wŷr, efallai mai'r ymateb fydd :

“wrth gwrs! Cymru ! Chi odd enillwyr Cwpan y Byd yn 2022 !“

LLEWYRCH I'M LLWYBR

gan y Parch. Euros Jones Evans

“A diflannodd llawenydd cynhaeaf o blith meibion dynion” (Joel 1: 13)
Pe bai rhywun yn gofyn i mi pa adnod yn y Beibl sy'n crynhoi yr holl brofiadau trawmatig, ingol a dirdynol y ddwy flynedd a hanner diwethaf a'n goddiweddodd fel cenedl a chymdeithas, yn ddibetrus, dewiswn yr un a geir yn Joel 1: 13, “*A diflannodd llawenydd cynhaeaf o blith meibion dynion.*”

Yn y cyd-destun, y mae'r proffwyd Joel, mewn ffordd farddonol ddelweddol yn dangos sut mae'r holl genedl - yn offeiriad, yn ffermwyr a'r gwinwyddwyr - yn galaru oherwydd y dinistr llwyr ar y wlad a achoswyd gan bla o locustiaid. Yn sicr, gwywodd rhywbeth mwy na gwenith a'r haid a choed dwyn ffrwyth: gwywodd llawenydd hefyd.

Yn sicr y mae'r ymadrodd diflannodd “llawenydd cynhaeaf” yn dweud llawer wrth gymdeithas wledig yr hyn y mae'r gymdeithas wedi'i golli. Diau bod gan y rhan fwyaf o ddarlennwyr y golofn hon atgofion pen y mynydd o gynaeafau y gorffennol. Maddeuwch i mi am eiliad am adael i atgofion personol droi'n fydyllau ar gaeau'r cof.

A ninnau yn awr ynghanol tymor y cynaeafu gwair, daw atgofion hyfryd dyddiau glas ieuencid yn ardal Login pan oedd adeg cwên gwair gwahanol ffermydd yn achlysur blynyddol i edrych ymlaen ato, a'r llawenydd anifffiadwy a ddôl yn sgil hynny. Cofiaf y cyffro: perci Coed-llys a Ffynnon-wen, Llain a'r Dyffryn, yn fyw gan sŵn tractorau a pheiriannau. Cofio sŵn twyllodrus cylllell y torrwr yn dirgel ladd y gwair yn rhesi cymen. Yna'r tröwr yn codi'r cyfan gan chwalu'r twf i sychu yn yr haul. Yn wir, cyn dyfod dyddiau “ni'n belio nawr,” cofiaf orymdaith dolennog araf: tractor, treilar a hayloader gyda hwnnw fachau troediog yn araf godi'r gwair ar hyd estyll ei asgwrn cefn cyn adael iddo ddisgyn yn bwylllog i'r eilar.

parhad ar dudalen 4

parhad o dudalen 3

Oedd, roedd cynaeafu yn achlysur cymdeithasol pwysig yng nghefn gwlad. Nid dim ond y llafurio oedd yn cyfrif ond y cymdeithasu a'r chwedleua a gaed wrth rannu lluniaeth te stên neu gwrw cartre ym mol clawdd. Cymydog yn helpu cymydog: dyna oedd y drefn. Hawdd rhamantu ond erys persawredd gogoneddus y gwair ffres ar gynfas y cof.

Hoffwn feddwl mai dyma a ddeuai i feddwl Joel pan barodd y pla locustiaid y fath ddifrod. Diflannodd y cyffro o dystio i lawnder y cynhaeaf. Dywed rhywbeth arall hefyd: "Oni ddiflannodd y bwyd o flaen ein llygaid, a dedwyddwch a llawenydd o dŷ ein Duw?" A dyna lawenydd arall a gollwyd yn ystod ein pla: "llawenydd addoli." Dw i'n siŵr bod y gweddill ffyddlon sy'n dal i fynychu tai'r Arglwydd yng Nghymru yn gweld eisiau y llawenydd hwnnw yn fwy na dim.

Thema ganolog llyfr Joel yw y daw achubaeth i Jwda a Jerwsalem yn unig pan fydd y bobl yn troi at Dduw. Yna nid yn unig y byddent yn derbyn ffafr ddwyfol ond byddai'r tir ei hunan yn dod yn ffrwythlon eto. Sicrhaodd y proffwyd y bobl y byddent eto yn derbyn bendithion gan Dduw dim ond iddynt edifarhau a gweddïo a bydd "pob un sy'n galw ar enw'r Arglwydd yn cael ei achub."

I orffen hoffwn sôn am hanes arall a geir yn Llyfr 1 Samuel 4 a 5 pan sonnir am drasiedi enfawr a ddaeth ar ran cenedl yr Israeliaid. Tra'n ymladd yn erbyn y Philistiaid, cipiodd y gelyn hwnnw Arch y Cyfamod. I'r Israeliaid roedd hynny'n gyfystyr â dwyn Duw oddi wrthynt; "Ciliodd gogoniant o Israel oherwydd cymryd arch Duw." (1 Samuel 4: 22) Wrth ddilyn hynt a helynt yr arch yng ngwahanol wersylloedd y Philistiaid, penderfynwyd ei hanfon yn ôl at yr Israeliaid yn Bethsemes oherwydd yr holl ddifrod a achosai ym mhob man y'i cymerwyd. Yna cawn y darlun hyfryd iawn hwn: "Yr oedd pobl Bethsemes yn medi eu cynhaeaf gwenith yn y dyffryn, a phan godasant eu llygaid a gweld yr arch, yr oeddent yn llawen o'i gweld." Roedd eu Duw wedi dod yn ôl atynt.

Gweddiwn a chredwn y caiff Duw ei le haeddiannol eto yn ein cymdeithas ac y bydd ei bobl yn codi eu golygon a gweld o'r newydd fawredd neges yr Efengyl a beth yw gwir addoli. Mynegwn obaith y Salmydd a dweud gydag ef yn Salm 27: 13, "Yr wyf yn sicr y caf weld daioni'r Arglwydd yn nhir y rhai byw."

Boed inni gyd brofi eto yr hyn yw "llawenydd cynhaeaf" a "llawenydd addoli" yn ein bywydau.

Cornel Llên



YR HAF

Mae'n dymor y gwres a'r tyfiant tymhorol
Ynghanol y flwyddyn a'i lewyrch ar bawb,
Natur a ninnau mewn cytgordd rhyfeddol
A gobaith yn gryfach na phryder a ffawd.
Aroglau gwair sydd ar awel y bore,
Y gwenyn yn hymian ym mlodau yr ardd,
Y traethau yn gwahodd y plant ar eu gwylie
Ar wlad ar ei gorau mewn dillad mor hardd.
Mae'r ffrwythau yn tyfu, y rhosod yn gwrido
Ar coed yn drwmlwythog dan gnydau o ddail,
Mae gwên ar wynebaw wrth ysgwyd ein dwylo
Ar haul yn ein hudo rhag gofid di-sail.
HAF yn ein bywyd sy'n lleddfu pob pryder –
Rhydd nerth i obeithio ymlaen gydag hyder.

N.E.

AMSER

Daethom i'r byd
Mewn amser.
Mor araf y llusgodd
Blynnyddoedd ieuencid,
Wrth ddyheu am rhyw
Yfory pell.

Ar y ffordd, cafwyd
A chollwyd ffrindiau
A theulu;
Llyncodd y calendr
Ein dyddiau
A'n blynnyddoedd.


Daeth cyfnod aeddfedrwydd
Yn llawn hiraeth
Am y ddoe rhamantus.
Heddiw, edrychwn ymlaen
Heb ddyheu,
Am yr yfory, agos.

N.E.

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300

IFAN DAVIES
Saer Coed


Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469

W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU

Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

CORNEL Y DYSGWYR

gan Albie Abbot

Dyma rywbeth i chi ar gyfer mis Gorffennaf - Gobeithio bod chi'n joio

Gorffenwch y brawddegau trwy gyfuno'r ddwy elfen mewn cromfachau e.e. Mae'n flin 'da fi dorri.....(ar draws chi).

Mae'n flin 'da fi dorri **ar eich traws chi**.

1. Mae'r cynghorwyr o blaid y cynllun ond mae'r pentrefwyr i gyd
.....(yn erbyn; fe)
2. Rhedwch(ar ôl; nhw)
3. Roedd pawb yn sefyll.....(o gwmpas; fi)
4. Mae popeth yn barod.....(ar gyfer; hi)
5. Ro'n nhw'n sefyll(uwchben ; ni)
6. Mae Wil yn moyn eistedd(ar bwys; hi)
7. Dw i'n gwneud hyn(er mwyn; ti)
8. Cyrhaeddais i(o flaen; ti)
9. Roedd llawer o bobl(o gwmpas ; e)
10. Does neb (o blaid; nhw)
11. Peidiwch a thorri(ar draws ; fi)
12. Peidiwch a gwneud hynny(er mwyn; fi)
13./.(ar ol; chi)
14. Mae hwnna'n moyn eistedd (ar bwys ; ti)

PWYNTIAU I'W COFIO:-

1. Mae'r rhagenw (fy, dy,....aayb) yn mynd ynghanol yr arddodiad cyfansawdd e.e.
2. Mae rhai arddodiad cyfansawdd wedi eu gwasgu at eu gilydd yn un gair – rhaid gwahanu rhain, e.e. uwchben, uwch DY ben di
3. Cofiwch y treigladau

Fy - trwynol - ar fy **mh**wys i

Dy - meddal - ar dy **bw**ys di

Ei (his) – meddal – ar ei **bw**ys e

Ei (her) (llaes) + h o flaen llafariad – ar ei **ph**wys hi / ar ei **hol** hi

Ein - dim ond h o flaen llafariad – ar ein **hol** ni

Eich - dim

Eu – dim ond h o flaen llafariad- ar eu **hol** nhw

iv) Efallai y gwelwch chi'r ffurf llenyddol - 'm / 'th am fy / dy ar ôl llafariad e.e./ o'm cwmpas (dim treiglad) ; o'th flaen di.



CACEN GAWS

Cynhwysion:-

- 8 owns o fisgedi 'Digestive;
- 4 owns o fenyn wedi ei doddi
- 1 jeli Lemwn
- ½ peint o ddŵr twym
- 6 owns o gaws 'Philadelphia'
- 1 tun bach o laeth 'condensed'
- Croen lemwn wedi ei gratio

DULL:

1. Rhowch y bisgedi mewn cw-dyn plastig a'u malu gyda phin rowlio.
2. Ychwanegwch y menyn wedi ei doddi a chymysgu'n dda.
3. Rhowch y gymysgedd mewn tun (a gwaelod rhydd) 7 - 8 modfedd.
4. Gwasgwch yn dda a'i roi yn y rhewgell i galedu.
5. Toddwch y jeli mewn ½ peint o ddŵr twym.
6. Ychwanegwch y caws wedi ei dorri a chymysgwch y cyfan yn dda.
7. Whisgwch y llaeth 'evap' nes ei fod ddwbwl y maint ac ychwanegwch at y jeli a'i droi yn dda.
8. Arllwyswch y cyfan ar y bisgedi yn y rhewgell a gadewch i galedu.
9. Codwch y cyfan yn ofalus o'r tun, ei roi ar blat a'i addurno a hufen dwbwl wedi ei chwipio.

Rhaid i'r jeli fod wedi oeri cyn ei gymysgu a'r llaeth 'condensed'.

Adrian Llewellyn Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425

HUW OWEN CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR

☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANEG HENDYGWYN AR DAF CYF. (WHITLAND ENGINEERING LTD.)

GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW

Uned B
Heol y Gorrlewin
Hendyngwyn ar Daf

Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



CYSTADLEUAETH gan John Arfon

Wedi wythnosau o dywydd sych a heulog ynghyd â dyddiau o wynt oer, hyfryd oedd cael noswaith dda o law yn ddiweddar. Roedd yr ardd a'r ffermwyr yn galw amdano ers peth amser. Mae'r sefyllfa yn yr lwcrain yn dal i fod yn bryderus i bawb a gallwn ond rhyfeddu at ddewrder y boblogaeth o dan y fath amgylchiadau. Gweddïwn am heddwch.

Cafwyd ymateb dda unwaith yn rhagor i gystadlaethau mis Ebrill.
Dyma'r atebion i'r tair rhan :

A) 1. Ifan, 2. Dydd, 3. Ynys, 4. Lewis, 5. Ddraig, 6. Ysbyty, 7. Gŵyl, 8. Alun, 9. Enw, 10. Felin, 11. William.

Wedi ail-drefnu llythrennau cyntaf pob ateb dylech gael yr ateb terfynol sef **Dafydd Wigley**.

B) 1. Ebrill, 2. Heledd, 3. Iona, 4. Edna, 5. Gwenda, 6. Grug, 7. Siwan, 8. Lleucu, 9. Dyddgu.

Wrth ddarllen y llythrennau i lawr y golofn lwyd, dylech gael yr ateb oedd erisiau sef **Blodeuwedd**.

C) Dyma atebion y Croesair bach :

Ar Draws. 1. 1812, 4. 90, 5. 20, 6. 1951

I Lawr. 1. 1911, 2. 80, 3. 2001, 5. 25.

Y cyntaf allan o'r het yn tro hwn ac sy'n ennill y wobr o £5 oedd Phyllis Hughes, Hafan Dawel, Pwlltrap gyda Huw Davies, Glynderi, Pwlltrrap yn ennill yr ail wobr o lyfr. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt ac hefyd i'r canlynol am eu hatebion cywir:-

Gwlithyn Jones, Dryslwyn; Joyce Davies, Hermon; Tegwen James, Blaenwaun; Dorothy Williams, Efailwen; John Lewis, Meidrim; Eilyr Thomas, Llandysilio; Peter Crowdie, San Cler; Owen Gibbon, Heol Llysonnen; a Rita James, Pwlltrap.

Dyma atebion Cwrosw a Chwilrif Ebrill

X	O	X	O	O	X
X	X	O	O	X	O
O	X	O	X	X	O
X	O	X	O	O	X
O	X	O	X	X	O
O	O	X	X	O	X

4	9	3	7	2	1	5	8	6
2	5	6	8	9	3	7	4	1
8	1	7	4	6	5	3	2	9
5	3	8	9	7	2	6	1	4
1	7	4	3	8	6	9	5	2
9	6	2	1	5	4	8	3	7
3	4	5	6	1	7	2	9	8
7	8	1	2	3	9	4	6	5
6	2	9	5	4	8	1	7	3

Dyma ddau bôc i'ch difyrru y mis hwn


	X				X
			O		
O					O
O			X		
	X				
		X		X	

		1	7	9	8			
	9	6				3		
		7		2			8	1
		2					3	5
			9			1		7
				6	3			
					2	4	1	8
5					4		6	
7					9			

Mae dwy ran i gystadleuaeth y mis hwn, ac i sicrhau y siawns o ennill y wobr gyntaf o £5 neu'r ail wobr o lyfr mae'n rhaid cwblhau y ddau bôc yn hollol gywir.

A) "Llafariad ar goll" yw'r pŵs cyntaf.

Tybed a fedrwyh gwblhau y croesair canlynol. Fe welwch fod pob clw yn rhoi'r ateb sydd ei eisiau ond gyda rhai llafariad a,e,i,o,u,w,y ar goll e.e. pe byddai y clw TL(4), gallech gael Talu, Ytal, Tyle, Tila ac yn y blaen ond nid Alto. Rhaid i'r cytseiniau fod yn y drefn gywir. Mae'n rhaid i chwi weithio allan yr atebion cywir er mwyn cwblhau y croesair. Gyda llaw nid oes unrhyw ateb yn cynnwys y llythrennau, ch,dd, ff ac yn y blaen.


**Ar Draws**

- | | | | |
|--------------|----------------|-------------|--------------|
| 1. GRNT (8) | 15. CMPS (6) | 1. GSD (5) | 13. CFLF (7) |
| 5. DNT (4) | 18. TRDNR (8) | 2. NNG (7) | 14. STM (7) |
| 9. SGTS (5) | 20. HNT (4) | 3. ST (4) | 16. PRDR (7) |
| 10. PRBL (7) | 23. MSTRD (7) | 4. TPSN (6) | 17. MDR (6) |
| 11. DRS (4) | 24. LN (5) | 6. SBR (5) | 19. MSN (5) |
| 12. CNGN (8) | 25. FN (4) | 7. TRNS (7) | 21. TRST (5) |
| 14. SGD (6) | 26. BNCLST (8) | 8. PRFT (7) | 22. CLC (4) |

I Lawr**(B)**

Defnyddiwch y naw llythyren sydd yn y gair a roddir a'u rhoi yn y blychau gwag yn y grid odditno i greu chwech gair o bump llythyren yr un (3 ar draws a 3 i lawr).

Y gair yw :

ADEILADWR

Anfonwch eich atebion gyda'ch enw, cyfeiriad a'ch rhif ffôn erbyn Awst 1af 2022 i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn ar Daf, SA34 0AX os gwelwch yn dda. Cofiwch fod yn rhaid ichwi fod yn aelod o'r Clwb 200 os am y siawns o ennill gwobr, felly gwnewch yn siwr eich bod wedi ymaelodi am eleni.

Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ

Rhif ffôn: 01994 231338

e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarlennwyr,

Gobeithio eich bod yn cadw'n weddol iach ac yn ddiogel. Braf yw gweld cynifer wedi ymaelodi oddi ar y rhifyn diwethaf. Byddai'n braf hefyd cael croesawu'r ffyddloniaid sydd efallai wedi anghofio ymaelodi hyd yn hyn. Gofynnaf yn garedig i chi gefnogi'r Clwb 200 ac wrth gwrs y Cardi Bach, drwy ddod yn aelod.

Gallwch ddanfôn siec am £10 i mi, yn daliadwy i 'Clwb 200 y Cardi Bach', gyda'ch enw a chyfeiriad. Yn ogystal, gallwch dalu drwy'r system BACS. Rhif didoli'r banc yw 40-46-27 a rhif y cyfrif yw 91020765. Lle mae angen cyfeirnod/reference, rhowch eich enw chi fan hyn.

Dyma enwau'r sawl sydd wedi ymaelodi'n ddiweddar:-
John a Megan Phillips, Croeso, Pwll-Trap
Gareth Phillips, Ysguborfawr, Pwll-Trap

Peter a Siân Lewis, Dollaston, Cas-Wis
Owain, Celyn, Nia a James, Dollaston, Cas-Wis
Anne Davies, Ffynnon Seiri, Llangynog
Maureen Rees, Blaendewi Fach, Trelech
Dorman Davies, Glasfryn Park, San Clêr
Morfydd Davies, Glasfryn Park, San Clêr
Granville Howells, Blaengilfach Isaf, Cilrhedyn
Ray Lewis, 13, Lôn Ddewi, Meidrim
Archie Lewis, 13, Lôn Ddewi, Meidrim
Eric Harries, Dinas Fach, Trelech
Alyson Harries, Dinas Fach, Trelech
Gethin ac Eleri Gibbin, Fferm Drefach, Henllan Amgoed
Ysgol Bro Brynach, Llanboidy
Susan Phillips, Taf, Llanglydwen
Haydn Evans, Taf, Llanglydwen

Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill ym mis Mai:-

648 - Aeres Jones, Bronllys, Gerddi'r Ffynnon, HDG - £20
399 - Mefin Lewis, Huan Aur, Login - £10

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth a chadwch yn ddiogel,
Rhian

MERCHED Y WAWR



Llith y Llywydd - Jill Lewis

Wel mae bron i flwyddyn wedi pasio ers Seremoni'r Urddo ger Carreg Goffa Waldo ym Mynachlogddu, sydd yn anodd credu mewn un ffordd, ond wrth ystyried pa mor gyflym mae amser yn pasio, dyw e' ddim yn syndod.

Er i'r flwyddyn ddechrau yn ddigon tawel ym mis

Medi oherwydd y pandemig, erbyn hyn mae fwy neu lai nôl i'r normalrwydd cynt. Mae'r canghennau bron i gyd wedi ail ddechrau cyfarfod a'r gweithgareddau Cenedlaethol bellach yn ôl wyneb yn wyneb. A dyna beth braf yw hynny!

Ers cymryd at yr awenau, yr wyf wedi cael y pleser o ymuno â sawl cangen ar gyfer eu cyfarfodydd misol, sawl te prynhawn a sawl cinio hefyd fel gwraig wadd neu i gyd ddathlu'r hanner cant. Wrth ysgrifennu hwn yr wyf yn paratoi i fynd ar daith gerdded cyntaf prosiect y Llywydd a hynny i fyny i Ranbarth Meirionnydd, ym Mhennal. Yn ystod yr wythnos, bues gyda cangen Penygroes yng Nghross Hands ac yfory mi fyddaf yn dathlu'r hanner cant gyda changen San Clêr. Mae'n siŵr y bydd cyfeiriad at y dathlu hynny yn y rhifyn hwn o'r Cardi Bach hefyd. Edrychaf ymlaen i'w cwmni a dymunaf yn dda iddynt am flynyddoedd maith i ddod.

Fel y soniais eisoes, mae popeth wedi dod yn ôl i rhyw fath o normalrwydd bellach, a bois bach mae'n dipyn o sioc i'r sustem. Ry'n ni Ferched y Wawr tipyn mwy prysur nag i ni'n sylweddoli !

Mae mis Mai wedi bod fel ffair a dweud y gwir. Teithio i fyny i Rydymain ger y Bala ar gyfer Gŵyl y Pum Rhanbarth a mwynhau yn fawr iawn. Yna, wythnos yn ddiweddarach, braf oedd cael dychwelyd i Fachynlleth ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol a'r Wyl Haf. Roedd hi mor hyfryd i weld pawb, ac fel dywedodd Dr Gwenllian Lansdown Davies, ein gwraig wadd ni, (a fy mos i

gyda'r Mudiad Meithrin!) roedd mor braf i weld coesau pawb, yn hytrach na gwyneb ag ysgwyddau pawb drwy gyfrwng zoom! Cytuno'n llwyr! Cawsom ddiwrnod bendigedig, a chael y pleser o weld y cystadlaethau crefft niferus, anrhegu buddugwyr cystadlaethau'r dysgwyr, Tlws Ann Lewis, Gwobr Patagonia, ac wrth gwrs y cystadlaethau llwyfan. Er y dylwn enwi pawb a fu'n llwyddiannus, mae'n rhaid i fi dynnu sylw at gystadleuaeth y sgets. Eleni, yr oeddwn yn cyflwyno tlws newydd arbennig iawn i goffau cyfraniad anhygoel y diweddar Mair Penri Roberts. Cyflwynwyd y tlws i Ferched y Wawr gan deulu Mair, a'i mab Sion gafodd y dasg anodd o feirniadu'r pedair sgets. Er y dylwn, fel Llywydd mae'n siwr fod yn ddi-duedd, methu'n llwyr y gwneis i i guddio fy llawenydd a balchder, fod Tlws Mair Penri yn dod nôl gyda ni i Sir Benfro ac i gangen Ffynnongroes. Dyma gangen sydd wedi cystadlu ers sawl blwyddyn yng nghystadleuaeth y sgets, ond erioed wedi dod i'r brig. Felly pa well amser i ennill nag eleni a chael enw Ffynnongroes ar y plac cyntaf. Diwrnod bendigedig arall a fydd yn aros yn y cof am flynyddoedd maith am resymau da iawn.

Fe fuodd yna ymweliadau eraill yn ystod y mis a hynny gyda Ffynnongroes a chinio cangen Llandeilo yn y Plough, Rhosmaen. Mae gen i ddywediad newydd dwi'n ei ddefnyddio yn awr sy'n cwmpasu fy nheimladau pan fyddaf wedi bod mewn cinio neu de prynhawn, a dyma fe – 'Cwmni da. Bola llawn. Jill yn hapus!' Gobeithio felly mai dyma fyddai'n dweud i orffen y dathliadau gyda changen San Clêr yfory !!

Pob hwyl i chi gyd.

Cangen Hendygywyn

Ar Fai 12fed. aeth dwy ar bymtheg o aelodau Merched y Wawr Hendygywyn ar eu trip blynyddol.

Ymweliad â Llanerchaeron oedd ein bwriad eleni ac fe gawson ni ddiwrnod hafaidd braf i'n taith.

Aeth bron pawb i Gaffi Conti yn gyntaf i fwynhau cacen, hufen ia, coffi a.y. b. cyn dechrau crwydro o amgylch y tŷ hanesyddol. Mae'n debyg taw hwn yw'r enghraifft orau o waith Nash fel pensair ac roedd digon i'n diddori am sbel. Wedyn, fe fentrodd rhai ohonom i'r gerddi ac i weld y fferm.

Preselstorage cyf.

Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159

GORSAF BETROL PRESELI CYF.

Llanddewi Efelldre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd



01834 860227



R. M. JONES

CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD

Bridge End House
Clunderwen

Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigi@hotmail.com



Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
E-bost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawncariad
www.llawncariad.co.uk

Cawsom awr fach yn Aberaeron wedyn cyn cyrraedd La Calabria yn Ffostrasol i fwynhau swper Eidalaid blasus. Sa i'n siwr pwy enillodd y wobr am fwyta'r hufen ia mwya'!

Cawsom ein cludo gartre'n saff cyn deg o'r gloch ac roedd pawb yn gytun ein bod wedi cael trip arbennig unwaith eto.



Rhai o'r merched yn cael hoe yng ngardd Llanerchaeron

Gyda thristwch mawr rydym yn cydymdeimlo â theulu Petra ar ôl ei marwolaeth annisgwyl yn Ysbyty Llwynhelyg. Roedd hi'n un o'n haelodau ffyddlonaf ac yn berson annwyl a didwyll. Coffa da amdani.

Cangen Gronw

Ar ddydd Iau 26ain o Fai, hyfryd oedd ymgynnull ynghyd a chael gwibdaith am y tro cyntaf ers amser hir. Teithiom i ganolfan Alltgyrdin, Abergwili lle cafwyd croeso arbennig gan Sharon Richards. Siaradod am sut sefydlwyd y ganolfan a mawr oedd diddordeb yr aelodau yn yr arddangosfeydd o fywyd ers llawer dydd.

Cafwyd cyfle i holi rhagor dros baned o dê a theisen. Diolchodd Susan Evans iddi am y croeso arbennig ac am lwyddiant y fenter a dymunwyd yn dda i'r busnes i'r dyfodol.

Symudwyd ymlaen wedyn i Brynseiri, Heol Henfwlch, Caerfyrddin. Yno roedd Linda, Gwyndaf a Haydn Davies yn ein disgwyl. Gwelsom wledd o bethau pren o wneithuriad a safon arbennig a chyfle i brynu anrheg fach i fynd adre gyda ni. Diolchwyd iddynt am y croeso a'r fraint o edmygu gwaith mor gywrain.

Galwyd wedyn yn y "Fox and Hounds", ym Mancyfelin am swper. Cafwyd pryd blasus. Prynhawn hyfryd yng nghwmni ein gilydd. Diolch i Eirwen Robinson a Meirwen Evans am wneud y trefniadau. Edrychwn ymlaen yn awr at raglen y gaeaf. Byddwn yn dechrau ym mis Medi ac yn cwrdd ar brynhawn Iau ola'r mis am 1.30. Croeso cynnes i aelodau newydd. Bydd yna groeso arbennig i chi.

Cangen Beca



Dyma aelodau Merched y Wawr Beca'n mwynhau swper yn y Mariners yn Hwlfordd wedi bod ar ymweliad i ysgol Caer Elen. Cafwyd croeso arbennig gan staff yr ysgol ac yn enwedig gan y prifathro Mr Dafydd Hughes a fu'n ein hebrwng o gwmpas yr ysgol. Mae gwerthoedd yr ysgol i'w gweld ar bob wal o fewn yr ysgol, i atgoffa'r disgyblion bob dydd o'r rheswm maent yn mynychu'r ysgol arbennig hon.

Dyma englyn gan Eifion Daniel sydd ar wal yng nghyntedd ysgol Caer Elen.

Rhowch le cynnes i'r fesen- a'i dwrhau
Ar dir hael Caer Elen
A ddyry, pan dry'n dderwen,
Rin y pridd yng ngraen y pren.



Yr aelodau yn ymweld ag Ysgol Caer Elen

Daeth nifer fach ohonom i gyfarfod blynyddol y gangen brynhawn Iau, Mehefin 9fed.

Cyn dechrau trafod materion y gangen, gwnaeth ein Llywydd, Eryl George ofyn i ni sefyll am funud o dawelwch i gofio am Petra Davies, a fu farw ddiwedd mis Mai. Yr oedd Petra yn aelod annwyl o'r gangen.

Hefyd gwnaeth gydymdeimlo gydag Ann Thomas, a gollodd ei gŵr Russell yn ddiweddar. Pob bendith i'r ddau deulu.

Ymlaen wedyn a materion y gangen.

Darllenwyd cofnodion mis Mai, a thrafodwyd mantolen ariannol y gangen.

Mae Eryl George (Llywydd), Angharad Booth Taylor (Ysgrifenydd), ac Eilir Davies (Trysorydd) wedi cytuno i gario ymlaen yn y swyddi am y blynyddoedd nesa.

Ymlaen wedyn i baratoi rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesa. Diolch i bawb am eu syniadau.

Bydd croeso i unrhyw un i ymuno gyda ni ar yr ail ddydd Iau o'r mis am 3 o'r gloch yng Nghaffi Beca.

Cafwyd paned, cacen a chlonc wedyn cyn troi am adre.

Cornel Garddio

gan W John Davies, Hendygywyn

Wel, dyma ddechrau ysgrifennu am erddi mis hwn ar y 4ydd o Fehefin. Mae'n ddiwrnod heulog, crasboeth gyda gwynt oer o'r gogledd ar yr un pryd, a felly mae wedi bod trwy gydol mis Mai a'r gwanwyn i gyd eleni. Oherwydd hyn, braidd yn araf mae tyfiant wedi bod yn ein gerddi ac mae tymeredd dŵr tap yn y tŷ yn oerach na ddylai fod. Mae hyn yn awgrymu fod pridd dyfnach tu allan yn oer, oherwydd prinder glaw yn gyffredinol eleni.

Trwy gydol mis diwethaf, dim ond ambell gawod ys-gafn a gafwyd - bron ddim yn ddigon i gadw'r tyfiant heb orfod dyfrhau yn gyson bron bob dydd. Mae'r cinabens a heuwyd ganol mis wedi egino, ond mae eisiau dyfrhau yn ddyddiol. Maent nawr wedi cydio yn y coed ac yn drych yn awyddus i ddringo, ond bydd rhaid cadw llygaid barcud i wneud yn siwr eu bod yn medru tyfu yn gyson, eto trwy ddyfrhau a chyflenwad o fwyd tomatos yn y dŵr unwaith yr wythnos i'w cynorthwyo. Mai hyn oll yn dipyn o ffwdan ond rhaid cofio mae ond nawr yn ddiweddar gwnaethom orffen fwyta y cnwd gawsom llynedd, gan eu bod yn cadw crystal yn y rhewgell.

Mae'r shibwns (shallots) hefyd i weld yn tyfu yn dda iawn eleni a rydym fel teulu yn eu defnyddio fel winwns. Un peth, maent yn fwy melys ac fel bwyd maent yn faethlon dros ben, yn cynnwys haearn, copr, mag-nesium, potassium, phosphorus a llawer o fitamine

eraill. Yn yr haf rwy'n eu bwyta yn las mewn salad, ac yna yn yr hydref yn eu codi a'u sychu fel winwns. Maent yn tyfu fel clwmps, i fyny at ddeg yr un ac i gael un neu ddau i wneud salad, fe af allan a'u gwthio tu allan i'r bwnshyn i lawr i'r ddaear. Fel hyn, maent yn rhyddhau yn rhwydd ac yna byddaf yn gadael y gwedd-dull i dyfu hyd yr hydref.

Os oes gennych fefus yn tyfu mae'n ddigon posib eu bod yn eu blodau, neu yn llawn ffrwyth erbyn hyn. Rhowch help llaw iddynt drwy ddyfrhau yn gyson un-waith bob wythnos ac ychwanegwch porthiant tomato i'r dŵr i'w gryfhau. Mae hwn yn cynnwys potash sydd yn dda i felysu a gwella blas y ffrwyth.

Os oes gennych goed gwsperis, edrychwch arnynt yn fanwl oherwydd mae'n bosib fod yna gleren, sef y Gleren Lif (Saw fly) yn bodoli a gall hon fwyta'r dail i gyd mewn byr amser. I'w gwaredu, cymysgwch llawn llwy bwrdd o olew pobi a llawn llwy o baraffin mewn hanner galwyn o ddŵr a gwistrellwch hwn dros y llwyn ac hefyd y ddaear oddi tano yn llwyr. Mae'r llwyn gwsperis yn tyfu yn gryf amser hyn, ac felly i gynorthwyo y cnwd eleni a blwyddyn nesaf, edrychwch ar y tyfiant newydd a thociwch pob cangen nôl rhyw chwe dalen o'r brig. Mae gwneud hyn yn galluogi'r llwyn i roi mwy o nerth i fewn i'r ffrwyth.

Mae cennin shifi wedi bod yn arbennig o dda eleni a mae eu gweled yn codi calon dyn. Maent mor hardd ac yn fwyd maethlon hefyd, yn enwedig yn y gwanwyn cynnar, ond mae tro yn eu cynffon hefyd. Maent yn wael i ddod â pydredd winwnsyn gwyn (white onion rot) mewn i bridd yr ardd, felly os oes gennych ddiddordeb mewn tyfu winwns gofawch cael gwared y shifi cyn diwedd pob blwyddyn. Mae'n debyg mai dim ond y rhain sy'n achhosi'r trwbwl, ac os cewch y clefyd hyn, does dim i'w wneud ond aros tua wyth mlynedd cyn tyfu winwns drachefn. Yn ddiweddar, cefais ddisgled o de gan ffrind a gofynnais iddo beth oedd y cynnwys, "o dail mieri meddai" ac roedd yn hynod o flasus, yn iachus ac hefyd yn hollol rhad!

Ma hen scowt fel fi yn medru dysgu, hyd yn oed pan yn mwynhau disgled.



Diwrnod Rali C.Ff.I Sir Gâr 2022



Daeth y nosweithiau hir o ymarfer a pharatoi ar gyfer y Rali i ben i aelodau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr a chafwyd ddiwrnod arbennig o gystadlu brwd ar Faes y Sioe, Nantyci ar Ddydd Sadwrn, 14eg o Fai 2022.

Ar ôl yr holl gystadlu a'r beirniadu, fe ddaeth yr amser i anrhydeddu'r Llysgennad a'r Llysgenhades newydd y Ffermwyr Ifanc yn y Sir. Llysgenhades newydd y Sir yw Mareed Evans o Glwb Penybont gyda Ioan Harries o Glwb Llannon yn Llysgennad y Sir. Cafodd Aelod Iau'r Flwyddyn, Celyn Richards, C.Ff.I Penybont ac Aelod Hŷn y Sir, Ifan Williams, C.Ff.I. Llangadog eu hanrhydeddu hefyd. Stocmon Iau'r Flwyddyn oedd Lewis Gibbin, C.Ff.I. Hendygywyn ar Daf. Yn ennill buwch Goffa Aled Howells am brif Stocmon dros y flwyddyn oedd Elan Thomas o Glwb Penybont.

Daeth C.Ff.I. San Cler a San Ishmaels yn gydradd yng nghystadleuaeth Tynnu Rhaf - Adran Dynion.

Llongyfarchiadau i C.Ff.I. Penybont am ennill yr Adran Iau a'r Adran Hŷn.

C.Ff.I. Penybont

Llongyfarchiadau mawr i Glwb Ffermwyr Ifanc Penybont ar ennill Rali C.Ff.I. Sir Gâr, ac i Mareed Evans ar gael ei hanrhydeddu yn y Rali yn Llysgenhades Ffederasiwn Sir Gâr. Cipiodd Penybont y darian am y nifer uchaf o farciau yn yr adran hŷn ac iau. Pob lwc i'r rhai a fydd yn cynrychioli'r Sir yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd.

Canlyniadau:

Stocmon y Flwyddyn -

Elan Thomas - 1af

Arddangosfa Ffederasiwn -

Penybont - 1af

Cyflwyno Hysbyseb -

Penybont - 1af

Dawnsio -

Penybont - 1af

Can Unigol Hŷn -

Hannah Richards - 1af

Canu Grŵp -

Penybont - 1af

Creu Arwydd Fferm - Cerys Nicholas Jones - 3ydd

Paratoi Llo Bîff - Gwion Jones-Howells - 1af

Barnu Defaid North County Cheviot - Gilbert ac Olwen Roberts - 1af

Barnu Merlod Cymreig Adran B - Elan Thomas ac Olwen Roberts - 1af

Marie Hughes a Gilbert Roberts - 3ydd

Gosod Blodau o dan 21 oed - Elan Thomas - 1af

Gosod Blodau o dan 16 oed - Olwen Roberts - 2il

Canu Unigol Iau - Celyn Roberts - 2il

Barnu Gwartheg Hereford - Marie Hughes a Gilbert Roberts - 3ydd



Mareed Evans,
Llysgenhades
Ffederasiwn Sir
Gâr



Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE

 Atgyweirio a M.O.T.

Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr

ALLPUMP SERVICES

ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON
A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH,
SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR

Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD

Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693

e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SION HARRIES
SEIRI GOED

EEAULFACH
HENLLAN AM GOED

 **FFÔN:-** **01994 240857** 

BLAENWAUN

Moriah

Diolch i Nigel Davies am ei wasanath ar Sul, 15fed Mai. Thema'r oedfa oedd dameg y wledd briodas a'r sialensau o dderbyn y wledd. Mae croeso i bawb, er gwaethaf ein pechodau, gan bod Duw yn maddau i ni.

Diolch i'n gweinidog y Parchedig Gareth Ioan am ein harwain mewn Cymun ar Sul, 5ed Mehefin. Testun yr oedfa oedd y Pentecost, penblwydd yr Eglwys - y cyfnod pan wnaeth yr ysbryd glân ysbrydoli'r disgyblion. Yr ysbryd glân yw Duw yn y byd yn gweithio drwy y bobl. Mae cwmnïaeth yr ysbryd glân i gael i bob un ohonom. Her y Pentecost yw hybu Cristnogath drwy ein gweithredoedd.

Trefn yr oedfaon

Sul 26ain Mehefin - Cyrddau Pregethu 2 o'r gloch
Parchedig Dorian Samson.

Sul Gorffennaf 3ydd 3 o'r gloch Parchg Gareth Ioan
Sul 17eg Gorffennaf 2 o'r gloch Cymun Arwel Evans
Croeso cynnes i bawb.

Pob dymuniad da i Jane Evans, Penddôl sydd wedi dioddef anffawd yn ei chartref. Gobeithio yn wir y gwelwn chi nôl yn yr oedfaon yn fuan.

Blaenwaun

Priodas Dda



Llongyfarchiadau i Ceris a Llŷr Phillips, Gorlan ar achlysur eu priodas yng Nghastell Aberteifi ar Sadwrn 14eg o Fai. Hir oes a phob hapusrwydd i'r dyfodol.

Llwyddiant yn Rali C.Ff.I. Sir Benfro

Llongyfarchiadau mawr i Manon a Beca Llewellyn a fu'n llwyddiannus yn trefnu blodau yn Rali C.Ff.I. Sir Benfro yn ddiweddar. Cafodd Manon y wobr gyntaf, sy'n golygu y bydd hi nawr yn cystadlu eto yn Sioe Malvern. Mae'r ddwy yn aelodau o glwb Hermon.



Manon



Beca

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

C J Waste cyf.

Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com



Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.

SPAR



Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol,
Gwin a Chwrrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy,
Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar
unrhyw achlysur.

Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.
Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.

Ffôn: 01994 419230



G WILLIAMS
a'i FEIBION

Monumental Masons

SEIRI MEINI COFFA

Pentre Yard

San Clêr

Ffôn: (01994) 231390



LLANWINIO

Cyngor Cymuned

Ar nos Wener, Mai 20fed, cynhaliwyd cinio blynyddol y Cyngor yn yr 'Old Board School', San Cler. Roedd y Cynghorwyr i gyd yn bresennol a braf oedd cael cwmni'r gwragedd hefyd. Derbyniwyd ymddiheuriad wrth Cyng. Sir, Jean Lewis. Cafwyd pryd o fwyd blasus a noson hwylus dros ben. Roedd yr achlysur yn gyfle i ddiolch i John Phillips (Esgairddeugod gynt) am ei wasanaeth ffyddlon a di-dor fel Cynghorwr Cymuned yn Llanwinio am dros 40 mlynedd. Daeth cyfnod John i ben amser yr etholiad eleni, er iddo ymddeol a symud gyda'i briod Heather i Heol Abergwili, Caerfyrddin tair mlynedd yn ôl.



Rhes flaen: John Phillips; Iori Saer; Ross Gallie (Clerc dros dro) a Dorian Lewis (Cadeirydd)
Rhes gefn: Wyn Evans; Huw James a Geraint Evans.

TRELECH

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Clive James, Caerwenog (Green Hall) ar ddathlu penblwydd arbenig yn ddiweddar.

....hefyd i Emyr a Liza, Tre-to Isaf ar ddathlu eu priodas Arian ar yr ail o fis Gorffennaf.

Gwellhad llwyr a buan i Eiddwen Howells, Sarnau sydd wedi syrthio yn ddiweddar a chael niwed difrifol i'w hysgwydd.

...hefyd i Veronica Evans, Blaenwauntŵr, ar ôl iddi syrthio â thorri ei phigwrn yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Braf oedd gweld ieuenctid yr ardal yn llwyddo ar ôl yr holl waith caled.

Canolfan Cymdeithasol Trelech

Cynhelir ein mabolgampau blynyddol ar gaeau Ysgol Gynradd Hafodwenog ar nos Wener, Gorffennaf 8fed am 5.30. Bydd amrywiaeth o stondinau a barbeciw ar gael. Croeso cynnes i bawb.

Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau Ysgol Hafodwenog

Cynhelir noson o rownderi a barbeciw yn Ysgol Hafodwenog ar nos Iau, Gorffennaf 14eg. Croeso cynnes i bawb. Dewch â'ch tîm gyda chi. Noson o gystadlu, cymdeithasu a mwynhau.

Aelwyd Hafodwenog

Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Ddinbych yn ddiweddar. Hyfryd oedd gweld cymaint o blant a phobl ifanc yr ardal yn cael y cyfle a'r profiad o fod ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Da iawn i chi gyd a daliwch ati.

Diolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr a'r cyfeilyddion am eu gwaith caled yn ystod y misoedd diwethaf. Diolch hefyd i Eleri Rees am sicrhau bod y gwisgoedd ar gyfer y dawnsio yn daclus a threfnus.

Diolch yn fawr i chi gyd.

Priodas Arian



Llongyfarchiadau i Emyr a Liza ar ddathlu eu Penblwydd Priodas Arian ar yr 2ail o Orffennaf, oddi wrth Cerys a Tomos.

Rhys Jones

Glanhauw Simnai

Glanhau Simneiau • Cynnal a Chadw
Arolygiad Teledu Cylch Cyfyng
Tynnu nythod adar • Gwiriadau diogelwch
Gosod larymau Carbon Monocsid
Gwasanaethu/atgyweirio stôffiau a lleoedd tân
Yswiriant a chymhwysiadu llawn

☎ 07554 647544

www.rhysjoneschimneysweeping.co.uk

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO

SIOP Y PENTAN

Y Farchnad, Caerfyrddin

Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy

Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen

GWASANAETH DOSBARTHU
AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni

Ffôn: 01437 563228

Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe,
Clunderwen. SA66 7NP

BANCYFELIN DATHLU'R UGAIN!



Roedd awyrgylch byrlymus yn y Priordy, Caerfyrddin, ar Ddydd Sul, 22 Mai 2022 wrth i aelodau gofalaeth Y Priordy, Cana a Bancyfelin ddod ynghyd i ddiolch am ugain mlynedd o gydweithio a chydaddoli a mwynhau

dan arweiniad ein gweinidog, Beti-Wyn. Bu'n ugain mlynedd o fentro ac arloesi mewn sawl ffordd ac, fel y dywedwyd, mor bwysig yw parhau ar hyn y llwybr hon gan barchu'r gorffennol ac adeiladu arno.

A pha well ffordd o ddathlu rhywbeth nodedig na thrwy gynnal oedfa deulu?

Hyfryd oedd creu darlun o'r eglwys fel cwch, gyda rhwyf gan bob aelod a'r angen i bob un ohonom rwyfo gyda'n gilydd er mwyn symud ymlaen. Roedd y clip fidio ac emyn trawiadol Siôn Aled 'O Llanwa hwyliau d'Eglwys' yn cadarnhau hynny i'r dim. Ie, gwaith ũm yw eglwys ac mae gan bob un ohonom ddawn a rhaid wrth gyfle i'w defnyddio. Ond mae'n rhaid cael capten hefyd on'd oes? Ac mae'n dyled yn fawr i Beti-Wyn am fod mor effeithiol yn y swyddogaeth honno.

Bu lle canolog i'r plant yn yr oedfa ac esboniodd ein gweinidog yn ei ffordd ddihafool ei hun, fel y mae gan bob un ohonom, o'r ieuengaf i'r hynaf, ran i'w chwarae yn adeiladu Eglwys Iesu. Ategwyd hynny yn ein darlleniad a'n gweddi.

Bu Beti-Wyn mor ddewr â wynebu cwestiynau gan y cyflwynydd profiadol Sulwyn Thomas! A chawsom gipolwg nid yn unig ar y blynyddoedd a fu, ond hefyd ar yr heriau sy'n ein hwynebu. Clywsom fel

mae adeiladu eglwys a'i chryfhau yn greiddiol i weinidogaeth Beti-Wyn ac fel mae gwyth technoleg yn gallu chwarae rhan bwysig yn y broses o gwrdd ag angen ysbrydol pob un ohonom y dyddiau hyn.

A pha well ffordd i gloi'r oedfa hon na thrwy ganu emyn arbennig John Gwilym Jones 'Fe chwythodd yr awel ar Gymru drachefn' gyda'r cytgan yn crynhoi pwyslais mawr yr oedfa ar gydgerdded, cydaddoli a chydweithio.

Mae pob diwrnod dathlu da yn diweddu gyda gwledd – a dyna a gafwyd yng Nghlwb y Cwina Caerfyrddin yn ddiweddarach, gyda phawb yn mwynhau carferi a phwdin blasus iawn! Braf iawn hefyd oedd gweld cymaint o blant yn bresennol.

Paratowyd cacen hyfryd i ddathlu'r achlysur wedi'i ddarlunio'n gelfydd gyda lluniau'r tri chapel. Fe'i torrwyd gan Beti-Wyn a diolch am gael ei blasu. Cyflwynwyd rhodd iddi hefyd ar ran yr Ofalaeth gan Sulwyn Thomas, Cadeirydd ein Swyddogion a weithredodd fel cyflwynydd drwy gydol y dathlu. Mynegodd Beti-Wyn ei diolch i bawb am eu caredigrwydd.

Un o binaclau'r prynhawn oedd y ddeuawd enwog Peter Hughes Griffiths a Sulwyn yn datgan Penillion y Dathlu o waith Peter. Y cyfeilydd oedd Meinir Lloyd – gyda chymorth Sulwyn ar yr iwcailili!! Roedd y cyfan yn llawn hwyl ac yn codi gwên!!

Diweddglo da i ddiwrnod da ac un yn sicr sy'n peri i ni fel gofalaeth edrych ymlaen at y dyfodol yn hyderus gyda'n gweinidog.

Cefnogi apêl Bethlehem Newydd



Braint aelodau eglwysy Cana a Bancyfelin oedd cefnogi apêl Bethlehem Newydd, Pwll Trap yn ystod mis Mai i gasglu dillad i Coda Ni. Bu'r ymateb yn wych. Diolch bawb. Trosglwyddwyd ein cyfraniadau i Annalyn Davies yn ein cwrdd pregethu blynyddol.

**arwyddion
eaglesigns**

Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion,
Argraffu a Lifrau Cerbydau...

01994 231749

post@eaglesigns-wales.co.uk

www.eaglesigns-wales.co.uk

UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

WYN HOWELLS

**Dandre
Llanboidy**

**Paentiwr ac
Addurnwr**

Ffôn: 01994 448478

STEVE DANIELL

Monraker

**Plymiwr
a gwaith cyffredinol**

"Handyman"

**Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf**

Ffôn: 07837 089648

Gibeon

Cafwyd oedfa Gymun fendithiol dan ofal y gweinidog, y Parch. Rhodri Glyn Thomas, ar Fai 15fed.

Braf oedd cael croesawu plant newydd i'r Ysgol Sul ym mis Mehefin.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu neu wirfoddoli gyda'r casgliad dillad i Coda Ni neu wrth gario'r bwyd o'r Coop i Loches Menywod Caerfyrddin.

Trefn oedfaon mis Gorffennaf:

3ydd: Oedfa Gymun ym Methlehem Newydd dan ofal y Gweinidog 10 y.b.

7fed – 9fed : Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin 10fed: Gŵyl y Sul Sbesial, Yr Egin.

17eg: Oedfa Gymun yng Ngibeon dan ofal y gweinidog 10.30 y.b.

Hyfryd iawn oedd gweld a chlywed un o feibion Bancyfelin **Siôn Daniel Jones** ar ddechrau darllediad cwmni Sky o'r gêm fawr dyngedfennol rhwng Cymru ac Wcrain ar Fehefin y 5ed. Yn y darn o ffilm a oedd yn gyflwyniad i'r rhaglen, roedd Siôn yn cyfrannu yn Gymraeg tra roedd cefnogwyr Wcrain yn cyfrannu yn Wcraineg. Dechrau penigamp i gêm a fydd yn y llyfrau hanes, a Siôn bellach yn rhan o'r hanes hwnnw ar y sgrîn deledu.

LLANBOIDY**Sefydliad y Merched**

Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill yn Neuadd y Farchnad, o dan lywyddiaeth Denise Harries gyda phymtheg aelod yn bresennol. Croesawodd Denise y gwesteion sef Laurie a Davina Watson. Cafwyd llawer o hwyl gyda'r ddau gyda straeon am ysbrydion. Diolchodd Brenda Worthing iddynt. Enillydd y gystadleuaeth am limrig oedd Jayne Evans. Cyhoeddodd Gwen Collard yn ystod y drafodaeth busnes, ei bod wedi cwblhau'r rhaglen ar gyfer y tymor nesaf, ac atgoffwyd pawb am Sioe y Sir sydd i'w chynnal ym mis Gorffennaf.

Ar Fai'r 12fed daeth pedair ar ddeg o aelodau ynghyd a chyflwynodd y llywydd, Denise y siaradwr gwâdd sef Jeff Kedward. Bu'n sôn am ei waith gyda 'Blood Bikes' sy'n gweithio o dri canolfan yn Ne Cymru ac mae'n teithio gryn bellter gyda hwy. Diolchodd Denise iddo am noson ddiddorol, a Denise hefyd enillodd y

gystadleuaeth am y sgons gorau.

Ar Fai 18fed, cyfarfu aelodau Grŵp Rebecca ym mharc picnic Llanboidy i gymdeithasu. Cafwyd prynhawn pleserus yn yr haul.

Ysbyty

Dymunwn y gorau i'r canlynol sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty - Wyn Makepeace, Island House; Lyn Kendall, Crud yr Awel a Margaret Gallon, Y Granary.

Cydymdeimlwn

Cymdymdeimlwn â Mair a Ronnie Morgan, Piccadilly ar ôl i Mair golli ei brawd Trefor.

Trinity

Ar Sul, 19eg o Fai, cafwyd oedfa o dan ofal y gweinidog, Y Parchg Guto Llywelyn ac hefyd oedfa Gymun ar Sul, 5ed o Fehefin. Diolch i'r gweinidog am ei negeseuon amserol.

MEIDRIM**Henoed**

Croesawyd Annalyn Davies swyddog Cymunedol gyda Tŷ Croeso Bethlehem Newydd, Pwlltrap, i'n cyfarfod. Siaradodd yn huawdl am helpu pobol yn y gymuned. Roedd pob apêl yn cael cyfraniad helaeth ac roedd yn synnu at haelioni pobol. Siaradodd yn ddiddorol ac yn rhwydd a chawsom fwynhad yn gwrando arni. Diolchwyd iddi gan Glen Lewis.

Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghaffi Beca ar Orffennaf 5ed pan fyddwn yn cael ein Te Mefus blynyddol. Yn rhoi raffl fydd Gwynfor Price, Brian Davies, Emrys Morgan, Glenda Badhams a Patsy Lewis.

Rosemarie Davies

Cyfrifydd Technegol

Treth Ar Werth
Cadw Cyfrifon

Cyflogau
Hunan Asesiad

Fferm Blaenwaun, Hebron

Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799

Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians



Delwedd
07814 543634

Salon Harddwch a Chyflenwol
Crymch

Triniaeth o safon mewn
awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion

POBYDDION
COUNTY STORES

San Clêr

Bara a chacennau ffres yn ddyddiol



Ffôn: 01994 230474

LOGIN

Calfaria

Oedfaon

Diolch o galon i'r Parchedigion Tom Defis ac Aled Gwyn am eu gwasanaeth dros yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogn hyn yn fawr iawn.

Oedfa Goffa'r Parchedig Vincent Evans

Cynhaliwyd oedfa goffa'r Parchedig Vincent Evans ar fore Sul, Mai 29ain. Roedd yr oedfa yma fod cael ei chynnal dwy flynedd nôl, i gofio hanner canrif ers marw / canmlwyddiant geni'r Parchedig Vincent Evans - ond daeth Covid i'n rhwystro rhag gwneud.

Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan yr ysgrifennydd Eurfyl Lewis, ac yn arbennig felly i Euros Rhys Evans a'i wraig Sian (mab a merch yng nghyfraith Vincent Evans) cyn iddo gyflwyno'r pregethwr gwadd sef y Parchedig Aled Gwyn. Daeth Aled yn weinidog ifanc ar gapeli Capel Mair Llanfallteg, Cwm Meils, ac Henllan Amgoed yn ystod y cyfnod roedd Vincent Evans yn weinidog ar gapeli Calfaria Login a Ramoth Cwmfelin Mynach a daeth y ddau yn gyfeillion mynwesol.

Aled a Vincent cafodd y weledigaeth o sefydlu Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda nôl yn 1968, cymdeithas sy'n dal i ffynnu yn y broydd hyn - ac sydd wedi codi miloedd ar filoedd o bunnoedd i nifer fawr o elusennau dros yr hanner canrif a mwy diwethaf. Cafwyd eitem hyfryd gan Beti a Sian wrth iddynt ganu "Ni Ddichon Byd" ac hefyd gan Corlan fu'n canu "Mor Fawr Wyt Ti" a "O Nefol Addfwyn Oen". Betty Evans fu'n cyfeilio ar yr organ.

Cawsom ein gwefreiddio gan Aled wrth iddo dalu teyrnged twymgalon i'w gyfaill a diolchodd Eurfyl iddo am oedfa goffa hyfryd a bendithiol fydd yn aros yn y cof am amser maith.



Y Parchg Aled Gwyn



Beti a Sian - Uwchben gwelir y garreg goffa



Corlan

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf.
Gorffennaf 10fed - Geoffrey Eynon - Cymun 2 o'r gloch
24ain - Eirian Wyn - 10.30 o'r gloch

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Ann Thomas, Min y Ddol a Faith, Kelly a'u teuluoedd ar farwolaeth gŵr, tad, tad-yng-nghyfraith, tadcu, hen ddadcu, brawd a mab-yng-nghyfraith annwyl iawn sef Russell Thomas yn ddiweddar. Bu Russell yn ddeiacon yng Nghalfaria am chwarter canrif, ac yn aelod ffyddlon yma, nes i'w iechyd dorri rai blynyddoedd nôl. Cynhaliwyd gwasanaeth ang-laddol hollol breifat yng Nghalfaria dan ofal y Parchedig Huw George a claddwyd ei weddillion ym mynwent Blaenconin. Coffa da amdano.

....hefyd gyda Mary Llewellyn, Garth ar farwolaeth ei chyfnither sef Eiry Jones o Lanbed (gynt o Boncath).

 **the LONDON HOUSE** butchery

Stryd Sant Ioan
Hendygywyn ar Daf
SA34 0AN

01994 240705 / 240055

Galwch mewn am y dewis gorau

Dilynwch ni ar Facebook 

Olew Oil

Trefigin

est. 1985 est. 1985

Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi

TANWYDD Tŷ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW

HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS

Warm to our Service

Cwmni annibynnol,
teuluol, lleol, Cymraeg



881630 **881282**

www.trefigin.cymru

RUSSELL THOMAS

GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR



Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen

Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

[illegible]

dillad yma yn werthfawr iawn, rhai yn ddrudfawr a rhai yn rhatach ond yn ddefnyddiau rhagorol gyda brodwaith cywrair. Prynhawn hyfryd iawn a diolchwyd i Yuleeta gan Rosemond. Sharon, Marlene a Mary fu yng ngofal y te ac enillydd y raffl oedd Wenfys.

Byddwn yn mynd ar wibdaith y mis nesaf ar Orffennaf 14eg. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch ag Eifiona Lewis.

Grŵp Garddio a Natur Llangynin

Ar Fai 4ydd mwynhaodd yr aelodau y cyntaf o'u gwib-deithiau Haf 2022. Treuliodd y grŵp y bore ar Reilffordd Stêm Gwili yn teithio o Orsaf Bronwydd Arms i arhosfan Danycoed.



Yn yr Arhosfan roedd amser i ymestyn y coesau a gwyllo'r injan yn cael ei ail-gyplu ar gyfer ei thaith yn ôl.



Yng Ngorsaf Llwyfan Cerrig, mwynhaodd yr aelodau luniaeth ysgafn cyn ailfyrddio ar y trên a mynd yn ôl trwy orsaf Bronwydd Arms ac ymlaen i Gaerfyrddin.

Ar ôl cinio teithiodd y grŵp i Abergwili lle cawsant ymweliad byr ag Amgueddfa Caerfyrddin ac yna cyfarfod â Louise Austin, Rheolwr Ymddiriedolaeth Porth Tywi, am daith dywys o amgylch Gerddi Parc yr Esgob.

Roedd sgwrs Louise yn cynnwys hanes Palas yr Esgob ac adfer y safle. Eglurodd sut mae'r ddôl ger yr afon yn cael ei reoli, sut mae'r dirwedd wedi'i newid drwy dorri coed ynn a'r hyn y mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu ei wneud i adfer yr ardd furiog.

Mwynhawyd yr ymweliad gan bawb ac roedd llawer o'r aelodau'n bwriadu dychwelyd yn ddiweddarach yr haf hwn i flasur nwyddau yn y caffî newydd.

Ar Mehefin y 1af, bu'r Grŵp yn ymweld â Gardd Furiog Ystagbwl a Bosherton ac mae ymweliad mis Gorffennaf â dwy ardd NGS, sef Neuadd Trefgarn a Stable Cottage.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r grŵp ar unrhyw un o'u hymweliadau haf, ffoniwch 01994 484711 neu 01994 448256.

PWLL TRAP

Llongyfarchiadau i Nia Lewis, Fferm Dollaston ar ei phriodas â James Morris. Mae Nia yn wyres i John a Megan Phillips, Croeso.

Pob dymuniad da i Jim Davies, Gors Fach a oedd yn datlu ei benblwydd yn 80 oed ar Fehefin 12fed.

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Jane Davies, Clos Nathaniel (Danyrheol) yn 54 oed yn dilyn brwydr dewr yn erbyn cancr. Cydymdeimlwn â'i gŵr, Huw, a'r plant, Ffion a'i gŵr Ieuan, ac Aled. Cofiw, hefyd, am John a Jenny, rhieni Jane, sydd hefyd yn byw yn Clos Nathaniel a'i brawd, Jamie.

Cydymdeimlwn â Sue a Tom Reynolds, Brodawl a Justin, Rhian a'r teulu, ar farwolaeth brawd-yng-nghyfraith ac wncwl o ardal Llechryd.

...hefyd â Dewi Griffiths a'r teulu ar farwolaeth brawd Dewi, sef Trefor Griffiths, Llanbariets, Llanfallteg.

Llongyfarchiadau i Morgan, gor-ŵyr Iris Morgan, Gors Fach, ar gael ei ddewis i fod yn fascot i dîm pel-droed Cymru yn ei gêm yn erbyn Wcrain. Profiad arbennig iawn iddo!

SPAR 

Jerry Williams a'i Feibion

GROSER a SWYDDFA BOST

 **CLOTH HALL LLANBOIDY** 

Ffôn: 01994 448364 / 448221

 **Adeiladwyr DORIAN PHILLIPS**

Crefftwyr o bob math yn y diwydiant adeiladu o hen i newydd

Arbennigwyr mewn ail wneud Capeli, Eglwysi ac Ysguborau

Dolau Gronw, Llanboidy, Hendygywn, Sir Gar. SA34 0EE
Rhif: 01994 448435 Rhif Symudol: 07899 186036
e.bost: dorian@dorianphillipsbuilders.co.uk

dp MASNACHWYR ADEILADU

Plymio - Addurno - Coed - Draeniad Insiwleiddio - Ceginau - Bathrwm A Llawer Mwy!

LLANBOIDY - ARBERTH
01994 448435 - 01834 861118
www.dpbuidingsupplies.co.uk

Bethlehem Newydd

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mary Williams, Llwyn Teg, yn 97 oed. Fe wnaeth hi a'i diweddar ŵr, Emlyn, symud i Bwll Trap wedi ymddeol o ffermio yn Blaennant, Trelech a daeth yn aelod ffyddlon o Fethlehem Newydd. Roedd yn ofalus iawn o'i theulu a buon nhw, yn eu tro, yn ofalus iawn ohoni hi yn enwedig yn ystod y blynyddoedd olaf. Cynhaliwyd ei hangladd ym Methlehem Newydd ar Fai 25ain gyda'r gwasanaeth yng ngofal y Parchedigion Rhodri Glyn Thomas a Robin Samuel. Dai Rees fu'n gwasanaethu wrth yr organ.

Cynhaliwyd oedfa Gymun ar Fehefin 5ed wedi ei selio ar wasanaeth Cymorth Cristnogol. Diolch i bawb a fu'n cymryd rhan ac i'r gweinidog am y myfyrdod ac am weinyddu'r Cymun. Diolch i Marian am drefnu ac i Dai Rees fu'n cyfeilio.

Llongyfarchiadau mawr i Melanie Robinson, merch Dai Rees, am dderbyn y CBE yn rhestr anrhydeddau Jiwili'r Frenhines. Mae wedi bod yn aelod o'r Llynges ers 29 mlynedd ac yn un o'r merched cyntaf i hwylio gyda'r Llynges a chapteinio llong ryfel. Pedair yn unig sydd wedi cyrraedd y safle o Commodore Maritime Reserve ac mae hi'n un ohonyn nhw. Mae Melanie'n wyres i'r diweddar Glyn a Betty Rees, Maesybryn, San Cler a Clunderwen gynt.

Trefn Suliau Mis Gorffennaf:

3ydd: Oedfa Gymun ym Methlehem Newydd dan ofal y gweinidog 10 y.b.

7fed – 9fed : Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr yng Ngholeg y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin

10fed: Gŵyl y Sul Sbsial, Yr Egin

17eg: Oedfa Gymun yng Ngibeon dan ofal y gweinidog 10.30 y.b.

Tŷ Croeso

Casglwyd mynydd o ddillad gogyfer ac apêl Coda Ni. Fe'u cyflwynwyd yn yr oedfa o dan ofal Coda Ni a gynhaliwyd ar Fai 22ain. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu mor hael. Derbyniwyd bagiau yn y capel, yn Pethau Olyv ac yn Swyddfa Bost Bancyfelin. Diolch iddyn nhw am fodloni i gasglu tuag at yr apêl. Casglwyd nifer fawr o fagiau yn Eglwysy Cana a Bancyfelin, Trinity ac Eglwys y Santes Fair a

daeth nifer o'r gymuned a bagiau, hefyd. Diolch i'r gwirfoddolwyr a fu yno ar y boreau Sadwrn yn eu derbyn ac i'r rhai a fu'n cludo'r bagiau i'w llwytho yn y fan.

Yn y lluniau gwelir y mynydd bagiau ym Methlehem Newydd ac Annalyn yn derbyn bagiau Eglwysy Cana a Bancyfelin wrth y Parch. Beti-Wyn James.



Mae gwirfoddolwyr wedi bod yn cludo bwyd o'r Coop i'r Lloches Menywod yng Nghaerfyrddin bob dydd Llun a dydd Iau. Diolch iddyn nhw am eu gwaith.

HENLLANFALLTEG

Trist clywed y newyddion am farwolaeth Trefor Griffiths, Llanbariets. Bydd llawer o'i gymdogion yn gweld ishe'i gwmni. Cydymdeimlwn yn fawr a'i deulu.

- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus

- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymmych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyd@gmail.com

AMSER AGOR
Llun - Gwener 7- 5.30
Sadwrn 7-12.00

**MASNACHWYR
ADEILADU**

Iard yr Hen Orsaf
Heol yr Orsaf, San Clêr

Ffôn: 01994 230239
Ffacs: 01994 232772

GAREJ WYN CYF

Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymmych, Sir Benfro
SA41 3RG

MOT

Gwasanaeth • Atgyweirio
Teiars • Batris

Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

EFAILWEN

Dyweddio

Llongyfarchiadau i Gwilym Jenner o Efailwen a Ffion Emyr o Lanystumdwy ar eu dyweddïad. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i'r dyfodol.

Marwolaeth

Clywsom y newyddion trist fod Heulwen Morris, Glandy Cross, sef gweddw y diweddar Meirion Morris, wedi'n gadael yn frawychus o sydyn ddechrau mis Mehefin.

Eisteddfod yr Urdd



Llongyfarchiadau i Mabli John ar ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth Argraffu, Bl 7, 8 a 9 yn Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych.

Priodas Dda



Llongyfarchiadau mawr i Owen Jenner o Efailwen a Laura Clayton o Arberth ar ddathlu eu priodas ar Ebrill 11eg. Priodas dda i chi.

Priodas Dda



William Williams ac Olivia Bradbury a briodwyd yn Eglwys Robeston Wathen ar Mai 14eg. Llongyfarchiadau, iechyd da a phob hapusrwydd i'r ddau i'r dyfodol.

Priodas Dda



Llongyfarchiadau mawr i Sali Gwen Owens, Dan y Coed, Efailwen a Matt Thompson ar eu priodas diweddar gynhaliwyd yng Nghapel Bethel, Mynachlogddu. Dymunwn bob hapusrwydd a iechyd da i'r ddau.

CYMORTH CRISTNOGOL

Diolchwn i bawb yng Nghylch Beca, Cymorth Cristnogol am eu cyfraniadau isod yn 2022

Capeli / Eglwysi / Unigolion

Bethesda Llawhaden	£25.00
Blaenconin a A G Lewis	£179.00
Calfaria Login	£150.00
Cefn y Pant	£100.00
Eglwys Dewi Sant Clunderwen	£20.00
Glandwr	£75.00
Hebron	£25.00
Horeb	£50.00
Llandilo	£150.00
Nebo	£50.00
Pisga Llandysilio	£200.00
Rhydwylym	£150.00
Seilo	£50.00
Tabernacl, Maenclochog	£250.00
Unigolion	
Eirianwen a Ken Thomas	£50.00
CYFANSWM	£1,524.00

CWM MILES

Diolch i Elonwy Phillips am wasanaeth hyfryd ar Sul, Mai 22ain.

Trefn yr oedfaon.

Mehefin 19eg. Cymun 2 o'r gloch Parchg Euros Jones Evans.

Gorffennaf 31ain Cymun 2 o'r gloch Arwel Evans. Croeso cynnes i bawb.

Cylch Meithrin Ffynnonwen

Mae'r Cylch yn awyddus i ddatblygu cysylltiadau cryf gyda'r gymuned.

Felly byddent yn ddiolchgar am unrhyw un sy'n barod i ddiddori'r plant drwy unrhyw fath o weithgaredd.

Y bwriad yw cael un sesiwn y mis ac mae dau wedi bod, ymweliad oen bach a stori actif.

Cefnogwch eich Cylch lleol, byddant yn falch eich croesawu.

Cysylltwch â Liz ar 07760 135392.



Sesiwn stori
Actif

Gwneud
gweithgareddau
corfforol



RHYDYCEISIAID

Pulpudd

Cynhaliwyd oedfa Gymun ar Sul, Mehefin 5ed. Gwasanaethwyd yn ddawnus fel arfer gan y Parchedig Guto Llywelyn. Diolch iddo.

Penblwydd

Pob dymuniad da i Eifion Griffiths a fydd yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed ar Fehefin 22ain.

...hefyd i Marlene Lewis a fydd yn 87 oed ar Orffennaf 11eg.

Marwolaeth

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Trefor Griffiths, Llanbariets, Llanfallteg yn Ysbyty Glangwili ar Fehefin 7fed. Roedd yn Ddiacon, Ymddiriedolwr ac yn aelod ffyddlon a gweithgar. Cydymdeimlwn yn ddwys â Mair a Ronnie Morgan; Eifion a Violet Griffiths a Dewi Griffiths a'u teuluoedd yn eu colled a'u hiraeth.

Llongyfarchiadau i Mrs Nansi Evans ar ei gwaith o deipio'r Cardi Bach bob mis am bron i ddeugain mlynedd - campus. Dymunwn iechyd da iddi i'r dyfodol

HENDYGWYN AR DAF

Tabernacl

Mae diwrnod y Cyrddau Blynnyddol yn ddiwrnod mawr yng nghalendr pob capel. Dyma diwrnod dathlu penblwydd yr Eglwys. Ac fel yna oedd hi yn y Tabernacl, Hendy-gwyn yn ddiweddar pan wnaethom groesawu'r Parchg. Dewi Myrddin Hughes, Clydach atom ar gyfer Cyrddau Blynnyddol 2022. Yn y bore cafwyd oedfa bregeth wedi selio ar tair gweddi yn y Beibl. Yna yn y prynhawn cafwyd oedfa deulu wedi selio ar Lydia, y person cyntaf o Ewrop i ddod yn Gristion.



Parchg Dewi Myrddin Hughes a phawb gymerodd rhan yn y Cyrddau Blynnyddol

**FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS**

FFENESTRI, DRYSAU, Pŵc
YSTAFELLOEDD GWYDR
A GWTERI

TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN

☎ 01437 563 806 ☎ 07774 812587

Caffi Beca

Oriau Agor 9.00yb-2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn

Efailwen
☎ 01994
419735

WYN'S TYRES

BREICIAU ac EGSOSTS

Galwch i mewn am brisau cystadleuol
a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1

WEMBLEY GARAGE
SAN CLER

Ffôn: (01994) 231599

Yr ydym yn awr wedi ail-ddechrau cynnig Cymun yn y cartref i'r rhai sydd ddim yn gallu dod i'r capel. Aeth y gweinidog gyda Mel Jenkins i rannu'r Cymun i Menna a Myrddin Parry yn ddiweddar. Y mae'r gwasanaeth yma ar gael i bawb a chysylltwch os hoffech fanteisio ar y cyfle.



Derbyn Cymun yn y cartref (o'r chwith Myrddin Parry, Menna Parry a Mel Jenkins)

Bydd Guto fel arfer yn y festri bob dydd Mercher rhwng 12.00 a 14.00. Croeso i unrhyw un, yn aelod neu beidio alw mewn am sgwrs. Mae problem wedi ei rhannu yn broblem wedi ei haneru.

Yn ystod mis Gorffennaf bydd yr Undeb yn cael ei gynnal yng Nghaerfyrddin pan fydd Annibynwyr o bob rhan o Gymru yn dod i Gaerfyrddin. A hynny 150 mlynedd yn union ers sefydlu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghaerfyrddin yn 1872. Edrychwn ymlaen am dri diwrnod o gyfarfodydd a chymdeithasu.



AMSER PRYSUR Cŵr Hendy-gwyn

Yn un o gorau hynaf Cymru, mae Cŵr Meibion Hendy-gwyn ar Daf yn dod allan o'r pandemig Covid mor brysur ag erioed.

Cadwodd y cŵr gyda'i gilydd trwy gydol y

cyfnodau clo trwy gyfarfod yn wythnosol ar-lein a hyd yn oed llwyddo i ddysgu rhai caneuon newydd ar y rhyngwrwyd.

Eglurodd Cadeirydd y cŵr Richard Lewis, "Rwy'n siŵr bod ein hymarferion ar-lein yn hanfodol i gynnal ysbryd y cŵr trwy gydol y pandemig ac mae'r buddion yn amlwg nawr. Yn anffodus, rydym wedi clywed am nifer o gorau yn brwydro oherwydd nad yw'r aelodau wedi dychwelyd a dim ond yr wythnos diwethaf, fe glywsom am dranc cŵr heb fod ymhell i ffwrdd. Rwy'n falch o allu dweud ein bod yn dal i recriwtio cantorion yn Hendy-gwyn ar Daf. Rydym newydd groesawu tri aelod newydd ac ar gyfartaledd mae bron i 40 aelod ym mhob ymarfer."

Dros y gaeaf, canodd y Cŵr ddwywaith ar dir Abaty Hendy-gwyn; wrth gofeb awyr agored yng Nghlwb Rygbi Arberth i un o'i gefnogwyr mwyaf ffyddlon, y diweddar Arthur Bates; yn yr Old Point House yn Angle i ddathlu Diwrnod Cenedlaethol Bara Lawr cyntaf; mewn noson gymdeithasol elusennol yng Nghas-wis ac mewn cyngerdd gala, yn cefnogi sêr teledu Britain's Got Talent Richard ac Adam yn Folly Farm, Begeli ar gyfer Clwb Rotari Arberth a Hendy-gwyn ar Daf.

Roedd cyngerdd Fferm Folly yn her i'r cŵr gan fod yn rhaid cadw pellter cymdeithasol a lledaenu ei hun dros y rhan fwyaf o lwyfan y theatr ond bu'n gyngerdd llwyddiannus iawn a gafodd dderbyniad da.

Bu llawer o heriau yn ystod y cyfnodau clo digynsail a thros y ddwy flynedd, cawsom 17 o ddigwyddiadau wedi'u canslo. Diolch i ymroddiad ein staff cerdd, Hefina Jones, Owain Lewis a Heather Jenkins a'n cantorion, rydym wedi bownsio'n ôl ac yn edrych ymlaen at y misoedd prysur sydd i ddod.

Dychwelyd i ymarfer gyda'u gilydd yng ngardd un o'r aelodau, yna yn yr eisteddle yng Nghlwb Rygbi Hendy-gwyn ar Daf ac am rai wythnosau, mewn gweithdy ar safle Bysiau Cwm Tâf a Neuadd y Farchnad Llanboidy cyn i'r cŵr allu cyfarfod yn ei lleoliadau ymarfer arferol.

Roedd y cŵr i fod i ddathlu ei ben-blwydd yn 125 yn ystod 2020 gyda chyngherddau arbennig a chinio gala ond bu'n rhaid canslo'r cyfan.

Cynhaliwyd y ginio ddwy flynedd yn hwyr a chroesawodd y cŵr Wynne Evans – y "Go Compare man" a chyflwynydd BBC Radio Wales fel ei siaradwr gwadd.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau

Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid

Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendy-gwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED

Plymio a Gwresogi

07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD
a'i Gwmni

SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen

Ffôn: 01437 563217

Dywedodd Llywydd y Côr, Mr Brian Jones wrth yr aelodau a'u gwesteion "yng Ngorllewin Cymru, rydym yn ffodus iawn i allu mwynhau ein ffordd o fyw. Rydym yn cefnogi ein diwylliant ac mae côr Hendy-gwyn ar Daf yn un o'r grwpiau hynny sydd wrth galon cadw ein diwylliant arbennig yn fyw."

Mae'r côr bob amser yn edrych i groesawu aelodau newydd ac ychwanegodd y cadeirydd, Richard Lewis, "Rydym yn griw cyfeillgar iawn ac mae cantorion newydd yn ei chael hi'n hawdd ffitio i mewn. Os ydych yn mwynhau canu a chwmni da, rydym yn eich gwahodd i ddod i ymuno â ni. Gallwn eich sicrhau o groeso cynnes."

Mae Côr Meibion Hendy-gwyn yn cyfarfod yn Ysgol Dyffryn Tâf, Ffordd y Gogledd, Hendy-gwyn bob nos Iau am 7.30pm.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â David Thomas, Swyddog y Wasg, ar 07789 915708 neu drwy e-bost yn dwj270@gmail.com.

Ysgrifennydd: Hugh Lewis – Ffôn: 01994 240437
Ebost: hughlewis36@btinternet.com



Y Côr yn Abaty Hendy-gwyn

Cylch Meithrin a Cylch Ti a Fi Hywel Dda



Cylch Meithrin yn dathlu'r Jiwibili



Cylch Ti a Fi Hywel Dda yn eu dillad coch, gwyn a glas i ddathlu'r Jiwibili

LLANDDEWI

Bethel

Mae aelodau Bethel dan arweiniad Pamela Lewis wedi bod yn trefnu prynhawnau cymdeithasol yn ddiweddar.



Yn y llun gwelir aelodau Bethel a chyfeillion ar ymweliad ag Amroth.

Bu Ruth Jones yn dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar. Pob dymuniad da wrth pawb yn Bethel."



CWMFELIN MYNACH

Ramoth. Bu Wyn Evans yn cynrychioli'r eglwys yng Nghymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion a gynhaliwyd yng nghapel Aberduar, Llanybydder ar Fehefin 18fed.

Cafwyd gwasanaeth Tudur Dylan Jones yn oedfa'r Cymundeb ar Sul, Mehefin 5ed ac oedfa brynhawn Sul, y 12fed gan Y Parchg Huw George. Diolch iddynt.

Oedfaon Gorffennaf

3ydd: Cymundeb – Mr. Alun Lenny - 10.30

10fed: Oedfa dan ofal Y Parchg. Huw George - 2.00



Llongyfarchiadau i Gwilym Snelson, mab Sioned a Dewi ac ŵyr Wyn a Meirwen am ennill y wobwr gyntaf am lefaru Bl. 3 a 4 yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Dinbych.

Roedd Gwilym hefyd wedi bod yn gwrando a gwylio'r newyddion am y rhyfel yn Wcrain ac yn awyddus iawn i helpu'r ffoaduriaid. Gan ei fod yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych penderfynodd wneud taith gerdded rhithiol o 124 milltir, sef y pellter o'i gartref yng Nghaerfyrddin i Faes yr Eisteddfod. Gwnaeth hyn mewn 56 diwrnod gan gerdded y filltir olaf i'r maes ar ddydd Sul, Mai 29ain. Camp anferthol!! O ganlyniad i hyn mae wedi codi £1060 i Apêl Ddyngarol Wcrain.

Codi £1060 i Apêl Wcrain



Dymuna Gwilym ddiolch o waelod calon i bawb sydd wedi cadw cwmni iddo ar hyd y daith ac sydd wedi ei noddi.

NEWYDDION BLAENCONIN

YR YSGOL BWNC

1822 - 2022

Yn dilyn saith wythnos o baratoi, daeth y ffyddloniaid ynghyd fore'r Sulgwyn i gynnal y GYMANFA BWNC gan ddathlu sefydlu'r YSGOL BWNC yn yr ardal dau gant o flynyddoedd yn ôl.

Dewiswyd 'RHIFAU'R BEIBL' fel thema eleni a mawr fu'r trafod o Sul i Sul.

Yn ystod cyfarfodydd yr Ysgol Sul ac 'Ar y We', cyflwynwyd y Rhifau

3, 4, 6, 7, 9, 10, 12, 21, 40 ac 1.



PREN DA

Gwaith coed o bob math

Dafydd Makepeace

Fferm y Cross

Llandysilio

Clunderwen

Ffôn 07967 220289

DERI PAGE CIGYDD



Cig o'r ansawdd gorau

Heol y Pentre
San Clêr

Ffôn: 01994 230062

Diolch am eich cefnogaeth

CONTRACTWYR ADEILADU
Gwasanaeth Cyflawn

Wernddu
Stryd y Brenin Edward
Hendyngwyn ar Daf
SA34 0AA

Ffôn: 01994 240534
Symudol: 07966 411443

Cafwyd trafodaethau diddorol ac ambell gyfaddefiad parthed rhif y diafol – 666 !

Diben a phwrpas y Gymanfa Bwnc yw dyfnhau ein deall a'n gwybodaeth o'r Beibl ac yn ystod y gyfres o gyfarfodydd a myfyrdodau cyflwynwyd gwybodaeth am feibion Jacob, y disgyblion, ffrwyth yr ysbryd a mwy o lawer.

Rhannwyd hefyd gwybodaeth am Fedyddwyr y fro yn sefydlu Ysgol Nos i gynorthwyo'r werin bobol i ddysgu darllen.

Felly, rheswm arbennig i ddathlu !

Fel rhan o'r dathlu, aeth y gynulleidfa draw i Nant y Ffin i fwynhau pryd o fwyd a diolch i Emrys ac Ann am y croeso.

Manteisiwyd ar y cyfle i nodi rhif arbennig arall yn ystod y bwyd a chyflwynwyd anrhegion i Sadie Davies, sydd wedi bod yn canu'r organ ym Mlaenconin am dros 64 o flynyddoedd. Diolch i Sadie am ei chyfraniad gwerthfawr i Ganiadaeth y Cysegr.

BBC

Hyfrydwch pur oedd cael eistedd o amgylch y **BWRDD BRECWAST CYMUNEDOL (BBC)** yng Nghaffi Beca fore Llun, 24ain Mai i drafod syniadau parthed y ffordd ymlaen i'r gymuned Gristnogol yn ein bro.

Cafwyd trafodaethau buddiol ar nifer o bynciau a'r cwmni yn cytuno i gynnal 'OEDFA' arbennig yng Nghapel Calfaria, Login i gofio am yr anwyliaid a fu farw yn ystod y ddwy flynedd diwethaf ac am y teuluoedd sydd wedi gorfod ymgodymu a'u colled heb gwmni a chydymdeimlad teulu a chyfeillion. Dewiswyd cynnal y gwasanaeth am 2 o'r gloch, prynhawn Sul, 18fed Medi. Mae'r gwaith o baratoi'r cynnwys yn mynd ymlaen a ninnau ffyddiog o fedru cyhoeddi enw'r siaradwr gwadd cyn bo hir.



Hefyd, trafodwyd ffyrdd i Eglwys i'r fro gynorthwyo'i gilydd yn ystod misoedd y gaeaf gan chwyddo rhif y gynulleidfa ac arbed gwresogi mwy a mwy o adeiladau. Bydd hyn yn gymorth i leihau ôl troed carbon a chostau trydan.

Syniad arall oedd cynnal 'Cabaret Cristnogol' yn Neuadd Llanboidy ar ddechrau cyfnod yr Adfent ym mis Rhagfyr ... manylion i ddilyn. Diolch i bawb am gyfrannu i gyfarfod buddiol ac i Robert James, Caffi Beca, am groeso cynnes a brecwast arbennig.

ANTURIAETH yr ARFORDIR

Dechreuwyd ar 'Anturiaeth yr Arfordir' sawl blwyddyn yn ôl ac erbyn hyn mae'r Anturiaethwyr wedi cyrraedd Traeth Mawr ger Tyddewi.

Bydd yr 'Anturiaeth' yn ail-gychwyn o Draeth Mawr fore Mercher, 20ain Orffennaf.

TAITH GERDDED WCRÁIN

Cyffyrddodd yr hyn sy'n digwydd yn Wcráin â chalonnau canran uchel o bobl ein gwlad. Yn eu mysg, wrth reswm, yr oedd Eglwys i'n hardaloedd. Trefnwyd taith gerdded gan y Parch. Geraint Morse, gweinidog Croesgoch, Berea a Harmoni, Pencaer, gan roi gwahoddiad i eraill ymuno gyda hwy.

Gwawriodd dydd Sadwrn, 9fed Ebrill, yn ddiwrnod braf, heulog, gydag awyr las ddigwmwl ac arfordir Sir Benfro yn ei ogoniant.

Ymgasglodd tua 25 o gerddwyr yn llawn cyffro tu fas i Gapel Harmoni, Pencaer, i ddechrau'r daith gerdded i Gapel Hermon, Abergwaun, taith tua phedair milltir a hanner. Hyfryd oedd cael cwmni Ryland Teifi a chriw 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' ar y daith.

Cafwyd croeso cynnes gan aelodau Hermon gyda phaned i bawb ar y diwedd.

Cynhaliwyd oedfa fer yn Hermon o dan arweiniad y Parch. Huw George.

Cafwyd darlleniad gan y Parch. Tom Defis, cyn i'r Parch. Geraint Morse gyflwyno neges fer am holl bwrpas y daith gerdded, sef dangos cefnogaeth i ddioddefwyr y brwydro yn Wcráin.

Ar ddiwedd yr oedfa, cyhoeddwyd fod tua £3,800 wedi dod i mewn i gronfa'r Apêl.

Erbyn cyfarfodydd y Senana yng Nghapel Caersalem, Cilgwyn roedd y cyfanswm wedi cyrraedd £5,800 a chyflwynodd y Parch. Geraint Morse siec i Mrs Bonni Davies, Llywydd Cenedlaethol Mudiad Cenhadol y Chwirydd, ar gyfer Apêl Wcráin y BMS.

MEWN CYDYMDEIMLAD

Bu farw Russell Thomas, Clunderwen yn ddiweddar ac yr ydym yn estyn ein cydymdeimlad i Ann, Faith, Kelly a'r teulu oll yn eu galar.

Roedd Russell yn un o 'blant' Blaenconin, ac yn dilyn oedfa i'r teulu yng Nghalfaria Login, rhoddwyd ei weddillion i orwedd ym mynwent Blaenconin.

NEWYDDION o'r FFYNNON

1722

Yn ystod y paratodau ar gyfer y Gymanfa Bwnc rhoddwyd cryn sylw i'r flwyddyn 1822 – y flwyddyn dechreuwyd yr Ysgol Bwnc yn yr ardal.

Er gwybodaeth, ac o ddiddordeb, mae aelodau Eglwys y Ffynnon yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn eleni am fod Capel cyntaf yr Eglwys wedi agor yn 1722 – 300 mlynedd yn ôl !

Mae'r aelodau yn gobeithio cynnal nifer o weithgareddau i ddathlu'r achlysur.

CLUNDERWEN

Penblwydd Hapus



Chi'n adnabod hon? Penblwydd hapus a phob dymuniad da i'r ferch fach yn y llun sydd yn dathlu penblwydd arbennig ar yr 8fed o Orffennaf.

Daw'r cyfarchion oddi wrth ei ffrindiau a'r teulu oll i gyd! Bydd rhaid cael parti mawr gan fod rhai aelodau o'r teulu yn teithio'n bell i ymuno yn y dathliadau.

Penblwydd Hapus yn 18 oed



Llongyfarchiadau i Iestyn Rees (Lamos) ar ei benblwydd yn 18 oed ar y 5ed o Fehefin.

Ysbyty

Dymunwn yn dda i Bernard Bowen sydd yn yr ysbyty yn disgwyl llawdriniaeth.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn gyda Mrs Brenda Thomas, Caerseli, a'i theulu oll, yn dilyn colli ei chwaer Mrs Rose Harries, Graystones, Maenclochog. Rydym hefyd yn meddwl am John Harries, eu plant a'u hwyron.

LLANDYSILIO

Pisgah

Bu farw Petra Ann Davies, aelod ffyddlon Capel Pisga a ffrind triw i bawb ar ddydd Gwener, 20fed o Fai 2022 yn 80 oed. Roedd yna wasanaeth angladdol cyhoeddus yng Nghapel Pisga, Llandysilio dydd Mercher, 1af o Fehefin gyda gwasanaeth preifat yn dilyn yn Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth.

Cydymdeimlwn yn fawr iawn gyda Richard, Philip, Peter, Huw a'u teuluoedd.

Priodas

Llongyfarchiadau mawr i Olivia Bradbury s William Williams o Maesybryn, Llandysilio ar eu priodas ar 14eg o Fai. Priodwyd yn Eglwys Robeston Wathen, ac yna i ddilyn yn Beggars Reach, Burton. Priodas hapus i'r ddau.

Penblwydd Hapus yn 80 oed



Dymuniadau gorau i Dyfrig Davies a fu'n dathlu ei benblwydd yn 80 oed ar ddiwedd mis Mai

CYLCH MEITHRIN a CYLCH TI a FI



Lleoliad: Neuadd Llandysilio, Clunderwen. SA66 7SY

**Ar agor: Dydd Llun, Mawrth, Iau a Gwener
9 - 12yb**

Arweinydd: Liz Lewis ♦ Ffôn: 07760 135392

E-bost: cmllandysilio@outlook.com

Rhif Eklusen Cofrestredig: 1089716

CYLCH TI a FI LLANDYSILIO

I blant 0-4 a'i Rhieni / Gwarchodwyr

Bore Mercher

10-12yb

Yn Neuadd Llandysilio

Pris: £3



Pwyllgor Neuadd Llandysilio

Diolch i bwyllgor y neuadd am drefnu Bore Coffi i ddathlu Jiwibili y Frenhines, ac i'r Cyngor Cymuned an ei cyfraniad o £100. Hefyd i'r Cynhorwr Simon Wright am agor y Bore Coffi ac i Scott (Can Llaeth) am y llaeth.

Diolch i bawb a fu'n helpu, cyfrannu, a dod i'r Bore Coffi. Roedd yn fore llwyddianus iawn, â phawb wedi mwynhau cwrdd â'u gilydd eto. Diolch.

Hefyd diolch i'r rhai sydd wedi helpu tuag at gael cegin newydd yn y neuadd.

Sefydliad y Merched**Clunderwen a Llandysilio**

Diolch i bawb a ddaeth i'r Te Pryn-hawn i ddathlu Jiwibili y Frenhines. Roedd mor braf cael bod gyda'n gilydd unwaith eto. Diolch i'r gwragedd o Sefydliad y Merched am drefnu ac am y bwyd blasus; i bwyllgor y neuadd ac hefyd i Gyngor Cymuned Clunderwen am ei cyfraniad ariannol. Diolch i Les Owen am agor y prynhawn. Diolch hefyd i Can Llaeth a pobydd Rhy-dwen am y scons.

Yn ddiweddar rydym wedi cael noson Origami, ac yna mis hwn, Helfa Drysor cerdded wedi ei drefnu gan Nia a Ken Davies.

Croeso i chi ymuno â ni ar nos Lun cyntaf o bob mis yn Neuadd Clunderwen am 7.30.

RHYDWILYM

Diolch i'r Parch. Tom Defis am wasanaethu yn oedfa'r Cymun ar Sul Cymorth Cristnogol.

Oedfaon Gorffennaf:

10fed - 10.30 Cymun Parch Geoffrey Eynon

24ain - 2.00 Parch Eirian Wyn Jones

Cydymdeimlwn gyda Iwan Lewis a Hedydd. Bu farw chwaer Iwan, sef Heulwen Morris yn sydyn yn ei chartref yn Efailwen. Rydym yn meddwl a chofio am y teulu i gyd yn ystod ei profedigaeth.

Rydym yn dymuno gwellhad buan i bawb sydd yn anhwylyd ar hyn o bryd. Mae'r Cofid byth yn ein poeni.

Aelwyd Hafodwenog**Canlyniadau Aelwyd Hafodwenog – Eisteddfod yr Urdd 2022****Dydd Iau**

1af – Dion Jones – Dawns Unigol i Fechgyn Blwyddyn 9 ac iau

1af – Luned Medi Defis – Dawns Unigol i Ferched Blwyddyn 9 ac iau

3ydd – Aelwyd Hafodwenog – Dawns Werin Bl.7-9

3ydd – Abel Rees – Dawns Unigol i Fechgyn Blwyddyn 9 ac iau

Dydd Gwener

3ydd – Aelwyd Hafodwenog – Dawns Werin Bl.10-13

Dydd Sadwrn

2il – Aelwyd Hafodwenog – Côr Merched SSA 14-25 oed

2il – Aelwyd Hafodwenog – Dawns Werin dan 25 oed

2il – Aelwyd Hafodwenog – Grŵp Stepio dan 25 oed (mwy na 6 mewn nifer)

2il – Esther, Luned ac Erin, Cloeswyr Cowin – Grŵp Stepio dan 25 oed (llai na 6 mewn nifer)

3ydd – Aelwyd Hafodwenog – Côr SATB 14-25 oed

3ydd – Aelwyd Hafodwenog – Côr Meibion TTB 14-25 oed

3ydd – Esther Angharad Defis – Dawns Werin Unigol i Ferched dan 25 oed



Côr yr Aelwyd

Gareth Glanville
SAER COED



Llwynpinner Fach
Hendygywn ar Daf
SA34 0RA

Ffôn: 01994 240173
Symudol: 07779 112192

Gwaith safonol - cysylltwch am bris

PEIRIANNEG
MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd

GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERO



Y Gweithdy
Llwynycelyn
Clunderwen
SA66 7HL



01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

THOMAS CAERSELI



THOMAS ENGINEERING
PEIRIANNWYR AMAETHYDDOL
ARBENIGO MEWN TREILARS
Caerseli
Clunderwen

FFÔN: 01437 563226



YSGOL BRYNCONIN

Cwis Llyfrau

Llongyfarchiadau enfawr i dîm Cwis Llyfrau yr ysgol am lwyddo i ddod yn gyntaf yn rownd sirol y gystadleuaeth! Bu'r criw yn creu fideo am straeon o'r llyfr 10 Stori o Hanes Cymru y Dylai Pawb eu Gwybod gan Ifan Morgan Jones. Da iawn chi am actio mor dda, a phob lwc i chi yn y rownd genedlaethol yn Aberystwyth.

Cystadlaethau'r Urdd

Ar ddydd Iau, y 26ain o Fai, aeth criw o ddisgyblion o flynyddoedd 3-6 i chwarae rygbi yng nghystadleuaeth yr Urdd. Roedd ymddygiad pawb yn arbennig a mwynhaodd pawb gael cyfle i gystadlu unwaith eto. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr i Mr Andrew Cotter am hyfforddi tîm contact yr ysgol ac i Mrs Kim Blethyn am hyfforddi'r tîm TAG. Da iawn i'r tîm rygbi am gyrraedd y rownd chwarteri olaf.



Cogurdd

Da iawn i Kieran am gystadlu dros yr ysgol yng nghystadleuaeth Cogurdd yr Urdd yn Ysgol y Preseli ar ddydd Gwener y 29ain o Ebrill. Roedd y bwyd yn edrych yn flalus iawn!

Ail Faner Werdd i'r Ysgol

Mae Ysgol Brynconin wedi llwyddo i ennill ail-faner werdd Ysgolion Eco. Da iawn i'r Clwb ECO am weithio mor galed er mwyn sicrhau fod yr ysgol yn llwyddiannus. Diolch yn fawr i Mrs Jayne Thomas am weithio gyda'r disgyblion.



Croesawu'r Prifardd Ceri Wyn Jones i'r Ysgol

Ar ddydd Iau, y 19eg o Fai, croesawyd Mr Ceri Wyn Jones i'r ysgol i weithio gyda disgyblion dosbarth Rhuddem. Mwynhaodd y disgyblion mas draw yn gwrandao ar straeon a cherddi doniol y prifardd. Diolch yn fawr i Ceri Wyn am ddod i'r ysgol i ysgrifennu cerddi gyda'r dosbarth.



YSGOL GRIFFITH JONES

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Naomi Miller ac Isobel Durbridge am eu llwyddiant yn y rownd genedlaethol o'r cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg yn Eisteddfod yr Urdd. Daeth Isobel yn gyntaf am ei gemwaith a daeth Naomi yn ail am ei gwaith argraffu. Hyfryd oedd gweld y gwaith yn cael ei arddangos ar y maes yn Ninbych!

Cwis Dim Clem

Bu disgyblion Dosbarth Myrddin sef Daisy, Jenson, Lewis

a Naomi yn cystadlu yn ail rownd 'Cwis Dim Clem' i ddosbarthiadau Cymraeg Ail Iaith y Sir. Gwnaeth y tim yn wych i ddod yn ail – llongyfarchiadau!

Taith y Twrch

Bu dosbarthiadau Pwyll, Culhwch, Hywel a Branwen ar daith o gwmpas tref San Clêr yn chwilio am y twrch trwyth! Bu pob dosbarth wrthi yn casglu tystiolaeth a thynnu lluniau o'r gwahanol gerfluniau a lluniau o'r twrch sydd o gwmpas y dre. Roedd yn rhan o'u gwaith ymchwil i hanes y dref.

Dydd Ewyllys Da

Mai'r 18fed oedd Diwrnod Neges Heddwch ac Ewyllys Da Cymru. Bob blwyddyn ers 1922, mae pobl ifanc Cymru yn anfon neges o heddwch i bobl ifanc dros y byd. Dyma'r unig neges o'i math yn y byd. Roedd neges 2022 yn ffocysu ar yr Argyfwng Hinsawdd. Bu dosbarth Pwyll yn creu eu negeseuon eu hunain yn seiliedig ar y thema yma a'u rhannu gyda gweddill yr ysgol.

Ymwelwyr

Daeth yr RNLI i'r ysgol i siarad gyda phob dosbarth yn yr ysgol. Rhannwyd negeseuon hollbwysig gyda'r plant am ddiogelwch ar lan y môr.

Gwobr



Enillodd yr ysgol wobwr gan gwmni 'Dunelm' sef cegin fwd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Edrychwn ymlaen i weld y plant yn coginio danteithion ynddi!!

Pentywyn



O'r diwedd daeth cyfle eto i blant Blwyddyn 6 ymweld ac aros am ddwy noson yng Ngwersyll Awyr Agored Pentywyn. Cafodd y plant gyfle gwerthfawr i fwynhau

llu o weithgareddau gan gynnwys abseilio, dringo a hwyl fyrddio yn y môr. Roedd yn gyfle gwych i adeiladu hyder a datblygu eu sgiliau tim.

Jiwbili Platinwm y Frenhines



Bu'r dosbarthiadau yn dysgu am hanes teyrnasiad y frenhines Elizabeth ac am arwyddocad y dathliadau. Bu rhai o'r dosbarthiadau yn cystadlu hefyd mewn cystadleuaeth, creu portread o'r Frenhines, a drefnwyd gan Lyfrgelloedd Sir Gâr. Llongyfarchiadau i Naomi Miller o ddosbarth Myrddin a ddaeth yn gyntaf allan o dros 200 o gystadleuwyr!

Derbyniodd pob disgybl yn yr ysgol fwg yn anrheg gan Gyngor y Dref i gofio am yr achlysur hanesyddol hwn.

Lloches

Hyfryd oedd medru croesawu disgybl newydd atom sydd wedi ffoi o'r rhyfel yn Wcrain. Mae Kyrilo a'i deulu wedi ymgartrefi gyda theulu lleol. Dymunwn pob croeso iddo ac i'r teulu i gymuned yr ysgol a San Clêr.

YSGOL BANCYFELIN

Sioe Mewn Cymeriad

Roedd hi'n braf dod at ein gilydd fel Ffederasiwn eto pan fu disgyblion Blynnyddoedd 3,4, 5 a 6 draw yn Ysgol Llansteffan yn gweld Sioe Mewn Cymeriad Syr Ifan ab Owen Edwards- sioe oedd yn llawn o wybodaeth am hanes yr Urdd.

Neges Ewyllys Da

Ar achlysur canmlwyddiant Neges Ewyllys Da'r Urdd, cynhaliwyd gwasanaeth rhithiol ar gyfer ysgolion y Ffederasiwn. Yn ystod y dydd bu'r disgyblion yn creu eu negeseuon eu hunain.

Cymdeithas y Bad achub

Bu ymwelwyr o gymdeithas y bad achub yn yr ysgol yn ddiweddar yn ein dysgu am ddiogelwch dŵr.

Gwersi nofio

Erbyn hyn mae disgyblion Blwyddyn 2,3,4,5 a 6 yn mwynhau gwersi nofio dyddiol ac yn dysgu sgil bywyd pwysig.

Cymdeithas y Bad achub



Bu ymwelwyr o gymdeithas y bad achub yn yr ysgol yn ddiweddar yn ein dysgu am ddiogelwch dŵr.

Diolch



Diolch i'r Cyngorydd Graham Edwards ac i Gyngor Tref San Cler am gyflwyno mygiau'r Jiwili i ddisgyblion Ysgol Bancyfelin.

Gwenyn Coed y Mêl

Diolch i Gemma Pugh o Wenyn Coed y Mêl a fu gyda ni'n cynnal ein gweithdy cyntaf. Edrychwn ymlaen at eich ymweliad nesaf gydag aelod o un o'n partneriaid busnes y "Fab Four"

YSGOL HAFODWENOG

Gweithdy Rhos Fach



Dechreuad dychmygol i thema newydd Rhos Fach gyda gweithdy creadigol gan Llinos Mair

Cwrs Awtistiaeth



Llongyfarchiadau i ddisgyblion Cae Glas am gwblhau cwrs Awtistiaeth.

Cwrs Beicio



Diwrnod ymarferol iawn yn dysgu am sut i feicio yn ddio-gel. Da iawn blwyddyn 5 a 6 am gwblhau cwrs lefel un.

Gweithdy Cae Glas



Diolch yn fawr i'r awdures Llinos Mair am ddiwrnod creadigol iawn yn dysgu am chwedl Myrddin.

Eisteddfod Dinbych 2022

Llongyfarchiadau i gor Ysgol Hafodwenog am gystadlu yn yr Eisteddfod yn Ninbych.

Datganiad Cyngor Sir Caerfyrddin

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd y flwyddyn nesaf. Dewiswyd Llanymddyfri i lwyfannu'r digwyddiad yn 2023 sy'n dathlu'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Ymwelodd yr Eisteddfod â Sir Gaerfyrddin am

y tro cyntaf ym 1935 pan gynhaliwyd yr Eisteddfod yng Nghaerfyrddin ac mae'r ymweliadau diweddaraf yn cynnwys Eisteddfod Sir Gâr yn 2007 ac Eisteddfod Cwm Gwendraeth ym 1989.

Mae disgwyl i filoedd o bobl ddod i'r Wyl a fydd yn cael ei chynnal rhwng 31ain Mai a 4ydd Mehefin y flwyddyn nesaf.

Dyma fydd yr wythfed tro i'r wyl gael ei chynnal yn Sir Gaerfyrddin.

Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn un o wyliau teithiol ieuenctid mwyaf Ewrop sy'n denu tua 90,000 o ymwelwyr bob blwyddyn ac mae'n cael ei chynnal mewn lleoliad gwahanol bob blwyddyn.

Mae'r Eisteddfod yn wyl gystadleuol lle mae dros 15,000 o blant a phobl ifanc dan 25 oed yn cystadlu yn ystod wythnos yr Eisteddfod mewn amryw o gystadlaethau megis canu, dawnsio a pherfformio. Rhain yw'r gorau

o tua 40,000 o gystadleuwyr ledled Cymru sydd wedi ennill eu lle yn dilyn rowndiau lleol a rhanbarthol a gynhelir yn ystod misoedd y gwanwyn cyn yr Eisteddfod.

Dyweddodd Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin, y Cyngorydd Linda Evans, y byddai'r digwyddiad yn gyfle i bobl weld y gorau y gall Cymru ei gynnig. Dywedodd: "Rydym yn falch iawn o fod wedi cael ein dewis i gynnal y digwyddiad hwn unwaith eto yn Sir Gaerfyrddin. Bydd y digwyddiad o fudd mawr i'r economi leol ac ar yr un pryd, bydd yn rhoi cyfle i bawb yn Sir Gaerfyrddin brofi gwir ddiwylliant Cymru, p'un a yw'r ymwelydd yn siarad yr iaith ai peidio. Bydd cynnal y digwyddiad hwn hefyd yn cyfrannu at weledigaeth ein Strategaeth uchelgeisiol ar gyfer y Gymraeg ac yn sicrhau ei bod yn cael ei chlywed, ei siarad a'i dathlu."

Dyweddodd y Cyngorydd Darren Price, Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin: "Rydym yn edrych ymlaen at groesawu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yma i Sir Gaerfyrddin unwaith eto. Dyma un o ddigwyddiadau diwylliannol mwyaf Cymru ac mae'n gyfle gwych i ddathlu ein hymrwymiad i gelfyddydau a diwylliant Cymru. Nid yn unig y mae'n arddangos rhai o dalentau gorau Cymru mewn cerddoriaeth, barddoniaeth a dawns ond mae'n dod â manteision economaidd enfawr, bri a chyhoeddusrwydd."

CARTREF ODDI CARTREF

Y GARREG LWYD
HEOL SALEM
SANCLER

FFONIWCH
Y RHEOLWRAIG
01994 230855

D Cook Aml-Fasnach

Darren Cook

Gwasanaethau Aml Fasnach

The Factory
Gelliwen. SA33 6DS

07796 138335
01994 484722
Cookie_28@hotmail.com

Cyflenwi, Gwasanaeth,
Atgyweirio a Gosod

Drysau Garej
Gatiau Awtomatig
Maes Parcio/Rhwystrau Mynediad
Lefelwyr Doc





**ARBENIGWR
LAND ROVER
ANNIBYNNOL**



MOT



♦CEIR ♦BEICIAU MODUR ♦FANIAU ♦4x4

Offer Diagnostig Diweddaraf





Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin
Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.
Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

♦RHANNAU SPAR ♦GWASANAETH ♦TEIARS
♦BATRIS ♦WELDIO ♦TRACIO PEDAIR OLWYN
♦TYMHERU AER

Ffôn: 01994 232960 ♦ Symudol: 07968 868313
Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



George's o San Clêr

Pysgod a Sglodion traddodiadol rhagorol



**Pysgod - Sglodion - Risols
Selsig - Cyw lâr - Diodydd**

**Ar agor Llun i Sadwrn
11.30 - 20.30**

**Croeso i chi archebu
ar y ffôn
01994 231482**

**Heol yr Orsaf,
San Clêr**





Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login
Hendygywn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk**




Nifer y dyddiau

Mehefin
Sad 18 Gwibdaith Sir Benfro 1

Gorffennaf
Sad 9 *Sioe Gerdd - Y Lion King, CMC* 1
Maw 19 a Mer 20 *Sioe Frenhinol Cymru* 1
Iau 21 **Llandudno** 5
Iau 28 **Castell Highclere (Abaty Donwnton)** 2

Awst
Llun 1, Mer 3 a Gwe 5 *Eisteddfod Genedlaethol* 1
Maw 30 Gwibdaith Dirgel 1

Medi
Llun 5 **Ardal y Llynnoedd** 5
Llun 12 **Eastbourne** 5
Sad 17 *Gwyl Fwyd y Fenni* 1
Maw 20 **Cerddoriaeth Bond - Neuadd Brenhinol Albert** 2
Gwe 23 **Feast Your Pork Pies on Melton Mowbray** 5

Hydref
Llun 3 **Iwerddon - Kerry a Dingle** 6
Gwe 14 **Stratford-upon-Avon** 4
Sad 15 *Sioe Gerdd - South Pacific, CMC* 1
Sad 29 *Syr Bryn Terfel - Songs & Arias, NDS* 1

Nifer y dyddiau

Tachwedd
Gwe 4 **Riviera Lloegr - Twrci a Tinsel, Paignton** 4
Sad 5 *Sioe Gerdd - Sister Act, CMC* 1
Gwe 11 **Gwesty Warner - Littlecote Swydd Berkshire** 4
Sad 19 **Nadolig ar y Coblau (Coronation Street)** 2
Sad 19 *Sioe Gerdd - My Fair Lady, CMC* 1
Gwe 25 **Ffair Nadolig Gwesty'r Metropole, Llandrindod** 3
Sad 26 **Gwyl Olau Longleat** 2

Rhagfyr
Sad 3 **Llwybr Goleuadau Palas Blenheim** 2
Sad 10 **Nadolig Gerddi Kew** 2
Sad 17 *Sioe Gerdd - Les Miserables, CMC* 1
Gwe 23 **Nadolig yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod** 5

Edrych ymlaen i 2023
Ionawr - *Sioe Gerdd Bugsy Malone, Chwefror* - Riviera Lloegr,
Mai - *Petals, Poppies a Porcelain, Mehefin* - Ucheldiroedd yr Alban
Medi - *Seidr efo Rhosys (Swydd Dyfnaint)*
Hydref - *Iwerddon, Mynyddoedd Wicklow, Gerddi a Dinas Dilyn*
A llawer mwy i'w drefnu

Pob ymadawiad o 4 diwrnod + yn cynnwys gwasanaeth drws i ddrws - Amodau'n berthnasol!

Dyfodol Yr Ysgol Sul yng Nghymru?

rhan annatod o'r gymuned Gymraeg ers dros 200 mlynedd!

Ers dros 200 mlynedd y mae'r ysgol Sul Gymraeg wedi chwarae rhan bwysig ym mywydau plant a ieuencid ein gwlad, yn eu twf ysbrydol, moesol a chymdeithasol a hynny trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Bydd llawer ohonom yn ddyledus am ddylanwad yr Ysgol Sul ar ein bywydau, yn ein datblygiad fel personau cyflawn. Fodd bynnag erbyn heddiw ceir cymunedau Cymraeg, mewn trefi a chefn gwlad, lle nad oes darpariaeth ysgol Sul neu unrhyw weithgarwch Cristnogol arall ar gyfer plant a ieuencid yn yr ardal. Bu'r 2 flynedd olaf hyn hefyd yn heriol i ddweud y lleiaf, a gwelwyd nifer yn rhoi'r gorau i gynnal Ysgolion Sul.

Y mae Cyngor Ysgolion Sul, sy'n gweithio'n gydenwadol, yn awyddus iawn i weld Ysgol Sul neu weithgaredd Cristnogol arall yn weithredol ym mhob cymuned ac ar gael i bob plentyn yng Nghymru. Rydym yn medru cynorthwyo i sefydlu Ysgolion Sul / clybiau plant / gweithgarwch ar ôl ysgol newydd trwy gyfarfod arweinwyr, darparu cefnogaeth, adnoddau ayyb.

Os ydych awydd gweld tystiolaeth Gristnogol i blant ac ieuencid yn cael ei sefydlu yn eich ardal chi, yna beth am gysylltu â ni, ac fe geisiwn gydweithio'n lleol i ystyried posibiliadau.


Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth:

Aled Davies, Cyfarwyddwr

aled@ysgolsul.com / 01766 819120

Ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan

www.ysgolsul.com



Cyngerdd - Bysiau Cwm Tâf
CLIVE EDWARDS | CEULYN DAVIES | JONATHAN DAVIES
TRI DIGRI | CÔR MEIBION HENDYGWYN
BYDD BAR A BWYD AR GAEL
7:00 yr hwyr
Yn: Bysiau Cwm Tâf, Hendygywn,
Sir Caerfyrddin, SA34 0NH

Tocynnau ar gael drwy ffonio 01994 240908 neu 01646 683143!

GORFFENAF
30
2022

Tocynnau
£15

PROSTATE CYMRU

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr

Siop Radio a Theledu
CRYMYCH

Setiau ar werth

Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

MASNACHWYR ADEILADU DAVIES

Cyflenwyr Adeiladu a D.I.Y.
Arddangosfa Ceginau
ac Ystafelloedd Ymolchi
ar agor

Heol yr Orsaf
Hendygywn
Ffôn:
01994 240228



Platiau Pert



CYSTADLEUAETH Cyfle i un darlennydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro

Yn Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar, prynodd Owen ac Olwen
bâr o blatiau pert yn rhodd i Mam-gu Iet-wen.



Plât Olwen



Fedrwch chi ddyfalu pa blât
brynodd Owen er mwyn
cael pâr perffaith?



Plât Owen



Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/7/22

Lili Haf Harries o Drelech yw enillydd Cystadleuaeth Mis Ebrill (Miri Mai).

Ateb: Brown, pinc, porffor, oren, melyn, coch, gwyrdd, arian, glas, aur, gwyn a gwyrddlas oedd lliwiau'r rhubanau.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer. www.wenfro.cymru

© y testun a'r lluniau: Llinos Mai © 2022



Bydd enw enillydd y
gystadleuaeth yn cael ei
gyhoeddi cyn hir.

Bysiau Cwm Taf

Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol

DYDDIAD	TEITHIAU 2022 / 23	PRIS	DIWRNODAU
Sul 26 Mehef - 2 Gorff	Ymweliad a RHEILFFORDD "BLUEBELL" EASTBOURNE	£535	7 Diwrnod
Iau 7 - 9 Gorffennaf	GOODWOOD FESTIVAL OF SPEED	£320	3 Diwrnod
Iau 14 - 16 Gorff	The Royal International Air Tattoo	£290	3 Diwrnod
Gwener 15 - 20 Gorff	YNYS WYTH (ISLE OF WIGHT)	£415	5 Diwrnod
Sul 24 -25 Gorff	LEGOLAND (WINDSOR)	i/g	2 Diwrnod
Llun 25 - 29 Gorff	HARROGATE a'r YORKSHIRE DALES	£450	5 Diwrnod
Sul 31 Gorff - 4 Awst	Charming Cheshire & The Wirral Peninsula	£435	5 Ddiwrnod
Sul 7 - 12 Awst	LOCHS a DYFRFFYRDD yr ALBAN	£535	6 Diwrnod
Gwener 12 - 15 Awst	ILFRACOMBE	£340	4 Diwrnod
Sad 20-27 Awst	St ANTON, AWSTRIA	£815	8 Diwrnod
Mer 24 - 27 Awst	SIOE AGER a Hên Beiriannau DORSET, Bournemouth	£340	4 Diwrnod
Sul 4 - 8 Medi	NORMANDY Cyfle i ymweld a mynwentydd y rhai a gollwyd	£595	5 Diwrnod
Llun 5 - 9 Medi	CYMRU a'r GORORAU	£450	5 Diwrnod
Llun 12 - 16 Medi	Norfolk Broads, Steam, Cruise and Sandringham	£495	5 Diwrnod
Gwe 16 - 19 Medi	PENWYTHNOS HIR o YMLACIO yn EFROG	£310	4 Diwrnod
Gwe 23 - 26 Medi	PENWYTHNOS THEMA YN TORQUAY	£280	4 Diwrnod
Sad 24 - 29 Medi	DARGANFOD TRYSORAU GOGLEDD IWERDDON	£705	6 Diwrnod
Llun 26 - 30 Medi	PENWYTHNOS YMWELD â GOLEUANNAU BLACKPOOL	£310	5 Diwrnod
Sul 2 - 6 Hydref	Dambusters & Lincolnshire Heritage	£490	5 Diwrnod
Sad 8 - 12 Hydref	Magnificent Isle of Man - GOGONEDDAU YNYS MANWY	£485	5 Diwrnod
Gwe 14 - 17 Hydref	WESTON SUPER MARE	£280	4 Diwrnod
Gwe 21 - 24 Hydref	PENWYTHNOS DDIRGEL MIS HYDREF	£330	4 Diwrnod
Gwe 21 - 24 Hydref	LOOE & THE CORNISH COAST	£300	4 Diwrnod
Gwe 28 - 31 Hydref	PENWYTHNOS YN BIDEFORD	£280	4 Diwrnod
Gwe 4 - 7 Tachwedd	TAITH UCHELWYDD A GWIN yn DARTMOOR	£300	4 Diwrnod
Llun 14 - 18 Tachwedd	TWRCI A THINSEL YN DYFFRYN GWY	£395	5 Diwrnod
Gwe 18 - 20 Tachwedd	MARCHNAD NADOLIG YN CHATSWORTH HOUSE	£225	3 Diwrnod
Gwe 25 - 29 Tachwedd	CELYN AC UCHELWYDD YN LLANDUDNO	£430	5 Diwrnod
Gwe 25 - 27 Tachwedd	MARCHNADOEDD NADOLIG - MAENCEINION A CAER	£215	3 Diwrnod
Llun 28 Tach - 2 Rhag	BELGRAVE SANDS, TORQUAY A TINSEL	£355	5 Diwrnod
Gwe 9 - 12 Rhagfyr	TWRCI A THINSEL YN BABBACOMBE	£245	4 Diwrnod
Gwe 30 Rhag - 2 Ionawr	DATHLU Y FLWYDDYN NEWYDD YN WATERFORD IWERDDON	£425	4 Diwrnod
Gwe 13 - 16 Ion 2023	ADUNIAD BLYNYDDOL YN Y BELGRAVE SANDS TORQUAY	£230	4 Diwrnod
Gwe 20 - 23 Ion 2023	PENWYTHNOOS ARBENNIG YN GWESTY'R PALACE PAIGNTON	£230	4 Diwrnod
Chwefror 2023 i/g	Rygbi y Chwe Gwlad ALBAN v CYMRU yn CAEREDIN	??	4 Diwrnod
Chwefror 2023 i/g	DISNEYLAND PARIS yn ystod Gwyliau'r Ysgol	ffoniwch	4 Diwrnod
Gwe 10 - 12 Mawrth 23	CLIVE a'i Ffrindiau yn diddanu yn y CELTIC CAERNARFON	£220	3 Diwrnod

Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau

Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni
01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk



PENBLWYDD HAPUS



Roedd Ellis Riccardo Morris-Woolcock yn flwydd oed ar 4ydd Mehefin. Mae'n fab i Sioned a Reece sydd yn byw yn Wolverhampton, ac yn ŵyr i Roy Morris (Tadcu) yn Hwlfordd. Penblwydd Hapus iawn Ellis, cariad mawr wrth Tadcu a'r teulu i gyd.



Yn dymuno Penblwydd hapus iawn i Glyn Biggs ar 21ain o Orffennaf yn 8 oed (ŵyr Iori a Ceri Saer, Blaenffynnon). Penblwydd hapus iawn iddo, cariad oddi wrth Dad, Mam, Rhys, Dadcu, Mamgu a'r teulu oll.



Penblwydd Hapus i Taliesin Scott Robinson, Caeredin a oedd yn 10 oed ar Fehefin 3ydd. Dyma lun ohono fe gyda'i chwaer, Elspeth a'u cefnder, Cai. Maent yn blant i Siriol a Nia, gynt o Garnwen, Llangynin. Braf oedd cael y tri bach gyda'u gilydd yn ddiweddar! Cyfarchion cynnes wrth Grannie, Grampa a Li.



Penblwydd hapus i Osian Snelson, Caerfyrddin, a fydd yn 6 oed ar Orffennaf 4ydd. Cariad mawr wrth Dad, Mam, Gwilym a Caleb; Tadcu a Mamgu Cwmfelin; Taid a Nain Dinbych a'r teulu oll.

Apêl Achub y Plant TACLUSO AT ELUSEN

Tybed a oes gennych chi focs o hen emwaith sydd byth yn cael ei wisgo. Beth am fynd drwyddo a'i ddioli ac yna ei roi at achos da?

Eleni, yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron, bydd gan yr elusen 'Achub y Plant' stondin emwaith. Arni, gwerthir gemwaith ail law o bob math, rhai'n rhad a rhai'n ddud.

Caiff unrhw ddarnau arian neu aur eu priso a'u gwerthu am bris real-istig a'u harddangos mewn cypyrddau gwydr pwrpasol. Os na werthir hwy yr wythnos honno byddant yn mynd i siop emwaith i'w gwerthu at yr elusen.

Yn 2017, yn Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn, llwyddwyd i godi dros £4,000 drwy werthu gemwaith.

Os hoffech chi helpu 'Achub y Plant' a hynny mewn ffordd ddidrafferth, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda un ohonom.....

Y dyddiad cau am rhoddion yw-Gorffennaf 25ain.

Yn y De...Emma Berry
07733 328101

walesberry@hotmail.com

Gwerthfawrogi unrhyw eitem.
Diolch, Emma, Achub y Plant

Ar agor
drwy'r
flwyddyn

**Tavernspite
GARDEN
CENTRE**
Established 1999

Paul a Janice Webb

Canolfan Arddio Tafarnspeit
Tafarnspeit, Hendygywyn ar Daf

Siop: 01834 831671
Ystafell De: 01834831863

E-bost: webb989@btinternet.com
www.tavernspitegardencentre.co.uk

HYWEL EVANS MEIDRIM



- Adeiladwr
- Plymiwr
- Trydanwr
- Saer coed
- Agor beddau

Noethlwyn, Meidrim. SA33 5PN
01994 484538

Clwb Rygbi San Clêr

Tim Ieuenctid

Llongyfarchiadau mawr i'r tim ieuenctid wedi iddynt ennill rownd derfynol Plat Rygbi Ieuenctid Sir Gaerfyrddin yn erbyn Porth Tywyn ar nos Wener, Mai 20fed yng Nglwb Rygbi Nantgaredig. Y sgor terfynol oedd 24 – 17, cafwyd gem gyffrous ac agos a bu rhaid i San Clêr amddiffyn dipyn yn yr ail hanner yn erbyn blaenwyr mawr Porth Tywyn. Fe wnaethant lwyddo yn rhyfeddol, yn ogystal a sgorio tri cais yn ystod y cyfnod hyn, i ennill y gem. Diwedd glo gwych i'r tymor!!

Wythons yn ddiweddarach, bu'r bechgyn yn chwarae gem adref yn erbyn Porthcawl, gyda San Clêr yn ennill 38 - 19 i orffen tymor llwyddiannus i'r tim. Diolch i'r hyfforddwyr am eu cyfraniad gwych i ddatblygiad y tim dros y flwyddyn diwethaf a diolch i'r cefnogwyr a'r noddwyr am eu cefnogaeth i'r bechgyn.

Tymor Nesaf

Mae'r Clwb yn edrych ymlaen at y tymor nesaf ac yn bwriadu dechrau ymarfer ym mis Gorffennaf, bob nos Fawrth a nos Iau am 7 o'r gloch. Croeso i bawb ymuno a'r garfan mewn gemau cyfeillgar yn ystod mis Awst yn erbyn Penclawdd a Dinbych y Pysgod

Mae'r Clwb yn bwriadu rhedeg tim datblygu tymor nesaf a bydd croeso cynnes i bawb ddod i ymarfer gyda ni dros yr Haf. Bydd Rhodri Jones a Mike Jones yn hyfforddi a byddwn yn estyn croeso cynnes i Dafydd Evans, cyn chwaraewr profiadol Castell Newydd Emlyn, fydd yn ymuno gyda'r tim hyfforddi. Mae Dafydd yn edrych ymlaen i gyfrannu tuag at lwyddiant y clwb, lle dechreuodd ei yrfa rygbi fel chwaraewr iau. Byddwn yn dechrau gemau cynghrair ym mis Medi yn Adran 3A y Gorllewin i ffwrdd yn erbyn Hwlfordd ac adref yn erbyn Llanbed.

Gwynndaf Williams - Cadeirydd Y Clwb



Tîm Rygbi Ieuenctid San Clêr, gyda'i hyfforddwyr, wedi iddynt ennill Plât Rygbi Ieuenctid Sir Gaerfyrddin. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

*Lluniau:
Cefin Vaughan*

Emrys ac Ann Murrow

Motel Nantyffin Llandissilio



Bwyty • Neuadd Wleda
ar gyfer priodasau,
cynadleddau, dawnsfeydd,
cyngherddau



Croeso cwrtais bob amser

Ffôn: 01437 563423
Ffacs: 01437 563329

Celia Vlismas OPTEGYDD

Croeso i gleifion GIG!



Profion golwg GIG ar gael
Yn gyflym ac yn hawdd i unrhyw un
sy'n gymwys i gael gofal llygaid GIG

Castell Newydd Emlyn **01239 711888**
Crymych **01239 831555**
Arberth **01834 861373**
www.celiavlismasopticians.co.uk

Gwasanaeth Trydanol RMD Cyf

Robert W. R. Morgan



CYMERADWYEDIG GAN
NICEIC

17 Trevaughan Lodge
Hendygywyn ar Daf
SA34 0QF

Ffôn: 01994 240946 - Symudol 07966 019281
e-bost: robbrmd28@gmail.com

Clwb Rygbi Hendy Gwyn

Yn dilyn tymor hir iawn, bu'r clwb yn dathlu'r Jiwili drwy gynnal diwrnod o hwyl ar Barc Tŷ Gwyn ar ddydd Gwener, Mehefin 3ydd.

Roedd Scott Williams a Sione Kalamafoni o'r Sgarlets yn bresennol a gwnaethant hwy gyflwyno gwobrau i chwaraewyr yr adran Iau. Diolch o galon i'r ddau am roi o'u hamser i ymuno gyda ni, gwerthfawrogn hynny'n fawr.

Dynion

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar ennill gwobrau :-
Chwaraewr y Flwyddyn - Ollie Hughes
Chwaraewr y Chwaraewyr - Ollie Hughes
Chwaraewr sydd wedi datblygu fwyaf - Trystan Rees

Menywod

Enillwyd y gyngrhair yn ystod gêm diwethaf y tymor pan wnaethom ennill 45-7 i ffwrdd yn erbyn Porth Tywyn. Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ennill gwobrau :-

Chwaraewr y Flwyddyn (Olwyr) - Cath Morley
Chwaraewr y Flwyddyn (Blaenwyr) - Pearl Van Joy Ellis
Chwaraewr y Chwaraewyr - Sally Windsor
Chwaraewr sydd wedi datblygu fwyaf - Macey Bowen

Hwb Merched

Dan 12
Mai 18fed - Ennill i ffwrdd yn erbyn Wiberod, Castell Newydd Emlyn.
Mai 29ain - Ennill adref erbyn Sospans Strade 18-9
Dan 14
Mai 18fed - Colli yn erbyn Wiberod A, Castell Newydd Emlyn
Mai 29ain - Ennill erbyn Sospans Strade
Dan 16/18 -dim gemau oherwydd arholiadau 34-19

Gŵyl Rygbi

Cynhelir Gŵyl Rygbi i bob oedran yn Hwlfordd ar Mehefin 19eg.
Suzanne Davies



Cath Morley yn derbyn gwobr Chwaraewr y Flwyddyn wrth yr hyfforddwyr Steff Campbell a Dai Ebsworth. Yn absennol o'r 3 llun mae Dafydd Cox, yr hyfforddwr arall.



Sally Windsor yn derbyn gwobr Chwaraewr y Chwaraewr wrth yr hyfforddwyr Steff Campbell a Dai Ebsworth a rheolwr y tim Suzanne Davies.



Macey Bowen yn derbyn gwobr wrth Steff Campbell a Dai Ebsworth (yr hyfforddwyr) am fod y chwaraewr sydd wedi datblygu fwyaf yn ystod y tymor.

OWEN PHILLIPS
Llanddewi EfelFre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab

Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

SIOP SIAN CRYMYCH 
Creffttau Cymreig
Gemwaith Rhiannon
Crisial Brenhinol Cymru
Creffttau Lleol
Cardiau, Casetiau, CD's, Llyfrau
Crymych, SA41 3QF
FFÔN: 01239 831230



Ffurfiwyd Clwb Bowlio Llanboidy yn 1992 pan dderbyniodd Gymdeithias Bowlio Mat Byr Sir Gaerfyrddin gais gan Lanboidy i ymaelodi dau dîm yn y gynghrair.

Yn y flwyddyn gyntaf, roedd 32 o aelodau ac enillwyd Cynghrair 2 ar y cynnig cyntaf. Ymaelododd trydydd tîm y tymor canlynol.

Y Cadeirydd cyntaf oedd Dorian Phillips, yr Ysgrifennydd cyntaf oedd Wyn Howells a'r Trysorydd cyntaf oedd Eifion Griffiths, sydd yn dal yn y swydd.

Neuadd y Farchnad oedd lleoliad cyntaf y clwb, ond yn 1996 symudodd i'r Clwb Chwaraeon. Yn 2008 a 2013, cynhaliwyd marathon 24 awr i godi arian at elusennau. Yn 2017, yn rhan o ddathliadau'r Clwb yn 25 oed, daeth tîm yn cynrychioli Cymru i chwarae yno.

Mae'r Clwb wedi ennill Cynghrair 1 yn fwy aml nag un clwb arall, gan hefyd ennill y Cwpan Knockout ar sawl achlysur.

Dros y blynyddoedd, mae'r Clwb yn falch iawn o'r ffaith bod nifer o aelodau rhwyngwladol yn eu mysg. Ar hyn o bryd, mae tri aelod yn cynrychioli'r Clwb mewn lliwiau

Cymru: Henry John, Nigel Thomas a Mark Beynon Evans. Hefyd, mae gennym ddyfarnwyr trwyddedig sydd wedi dyfarnu mewn cystadlaethau rhyngwladol.

Ym Mawrth 2020, diolch i Covid, daeth rhaglen y gynghrair i ben. Ar y pryd, roedd y Tîm A yn drydydd yng Nghynghrair 1 gyda thair gêm i fynd, tra roedd Tîm B wedi ennill Cynghrair 2 yn gyfforddus. Yn anffodus, penderfynwyd canslo'r tymor cyfan felly dim dyrchafiad i'r Bs!

Ar hyn o bryd mae ymarfer o Fedi i Fai ar ddwy noson yr wythnos, Llun ac Iau am 19:30. Mae pob croeso os oes gennych ddiddordeb mewn bowlio mat byr, ac mae hyfforddwr trwyddedig ar gael i'ch arwain. Rydym yn gwmni cyfeillgar ac mae croeso cynnes i bawb o bob oed. Mae bowliau ar gael i dreial, felly'r cyfan sydd angen yw sgidiau addas neu slipers.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Don ar 01994 231 518

Don Howells



Clwb Pel-droed Llanboidy

Mae tymor Clwb Pel-droed Llanboidy wedi dod i ben am 2021-2022.

Tîm cyntaf

Dim ond un gêm chwaraeodd y tîm cyntaf dros y mis diwethaf a hynny mewn gêm gyn derfynol yn erbyn Ffostrasol. Cafwyd gêm agos iawn, ond yn anffodus colli o 4 gôl i 2 oedd ein hanes. Goliau Llanboidy yn dod gan Ewan Jones a Tomos Rogers.

Ar y cyfan, cafwyd tymor eithaf da, gan orffen yn y 4ydd safle yn y gynghrair, chwarae mewn ffeinal ond yn colli yn anffodus a hefyd cyrraedd rownd gyn derfynol mewn dau gwpan.

Edrychwn ymlaen at dymor nesaf, a gobeithio adeiladu ar y tymor rydym wedi cael eleni. Diolch yn fawr i Paul Williams a Paul Jenkins am hyfforddi'r tîm a diolch yn fawr iawn i bawb arall sydd wedi cynorthwyo mewn amryw o ffyrdd.

Ail Dîm

Dim ond dwy gêm mae'r ail dîm wedi chwarae yn

ystod y mis diwethaf hefyd. Un gêm gynghrair yn erbyn pencampwyr y 3ydd adran; Llanilar a hefyd mewn ffeinal cwpan Percy Eldrige ganol mis Mai.

Yn anffodus colli bu hanes y tîm yn erbyn Llanilar o 4 gôl i 2 gyda'r goliau yn dod gan Ifan Jones a Ryan Pearce. Colli bu hanes y tîm hefyd yn y ffeinal yn erbyn tîm cryf o Ffostrasol a hynny o 3 gôl i 0.

Ar ddiwedd y tymor, gorffennodd y tîm yma yn 4ydd yn y gynghrair hefyd. Diolch yn fawr i Bruce Scourfield a Rob Morgan am gynorthwyo'r ail dîm eleni. Diolch yn fawr iawn i bawb arall sydd hefyd wedi cynorthwyo'r tymor yma.

Diolch yn fawr iawn i holl noddwyr a chefnogwyr y Clwb am y flwyddyn - rydym yn ddiolchgar iawn i chi am eich cefnogaeth. Bydd cinio blynyddol y Clwb ar nos Wener, 17eg Mehefin – felly bydd mwya o wybodaeth am enillwyr gwobrau yn y Cardi Bach y mis nesaf. Hefyd rydym yn edrych ymlaen at weld ein cystadleuaeth 6 bob ochr yn ôl ar Ddydd Sadwrn, 30ain Gorffennaf. Croeso cynnes i chi gyd.

Rhodri Lewis

CHWARAEON

Clwb Criced Hendyggwyn

Mae'r clwb wedi bod mewn bodolaeth am dros 100 mlynedd. Mae yna adroddiadau o gemau gan y clwb yn yr 1910au ond bach iawn yw'r wybodaeth am y cyfnod cynnar yma. Ar y dechrau roedd y tîm yn chwarae ar Parc Dr Owen yn erbyn timau lleol. Yn ddiweddarach ymunodd y clwb â chynghrair Sir Benfro. Hefyd symudwyd am beth amser i chwarae ar gae yr Ysgol Ramadeg. Ar ddechrau y 1970au prynwyd cae ar gyrion y dref ac aethpwyd ati i'w wneud yn addas i chwarae criced. Dros y blynyddoedd ers hynny mae llawer iawn o waith wedi ei wneud ar, ac oddiwrth, y cae i gael cyflesterau sydd erbyn hyn yn sicr cystal ac unrhyw glwb arall. Agorwyd y clwb a'r ystafelloed newid presennol yn 1999. Gyda diddordeb i chwarae criced yn datblygu, ffurfiwyd ail dîm yn 1976 a trydydd tîm yn 2001.

Ers blynyddoedd bellach mae adran ieuenctid llwyddianus iawn wedi bod gyda'r clwb. Ar ddechrau'r ganrif, rhwng 1999 a 2013 ymddangosodd y tîm yn rownd derfynol y Cwpan Ieuenctid 12 o weithiau gan ennill 9, yn cynnwys 6 gwaith yn olynol rhwng 2004 a 2009. Cydnabuwyd y llwyddiant yma gan Bwyllgor y Sir wrth cyflwyno tlws arbennig i'r clwb. Dros y blynyddoedd mae'r timau dan 15, dan 13 a dan 11 hefyd wedi ennill eu hadrannau hwy. Gyda'r llwyddiant yma dewiswyd nifer o'r bechgyn a'r merched i gynrychioli Cymru yn y gwahanol oeddrannau.

Ar ôl blynyddoedd o foddwr wrth ymyl y lan, llwyddwyd yn 2012 i ennill Tlws Harrison Allen, sef prif gystadleuaeth Cwpan Sir Benfro, gan guro Carew yn y rownd derfynol. Llwyddwyd i gyrraedd y rownd derfynol eto yn 2015 ond colli y tro yma i Neyland. Yn 2017 cafwyd llwyddiant yn ennill Cwpan Duggie Morris gan drechu Hwlfordd. Mae'r ail dîm hefyd wedi profi llwyddiant yng Nghwpan Alec Colley i ail dimau, gan ennill y cwpan yn 1995, 2015 a 2016.

Ar hyn o bryd mae gan y clwb 3 tîm sydd yn chwarae yn cynghreiriau 2,4 a 5 Sir Benfro. Hefyd mae timau dan 9,11,13,15 a tîm ieuenctid yn ogystal â thîm merched sydd yn chwarae yn Adran 1 Sir Benfro. Mae'r timau

iau yn ymarfer ar Nos Iau am 6.30 ac mae croeso i unrhyw fachgen neu ferch ddod i'r ymarferion.

Canlyniadau'r Tîm Cyntaf

HDG 209-9 Herbranton 218-8; Burton 139-4
HDG 100: Lamphey 96 HDG 97-2; HDG 207-8
Llanrhian 88:
Carew 159-9 HDG 164-8; HDG 171-9 Hook 121.

Cwpan Harrison Allen: Penfro 124-6 HDG 125-3;
HDG 123-7 Llechryd 126-6.

Cwpan D.R.Morris: Carew 123-7 HDG 121-8.

Ail Dîm

Herbranton 94 HDG 95-5; HDG 115-6 Burton
116-9; HDG 140-8 Hwlfordd 185; Carew 130
HDG 134-4; HDG 106 Llangwm 107-6; Lawrenny
110-4 HDG 109.

Trydydd Tîm

Hwlfordd 132-7 HDG 133-9;
Crymmych 79-0 HDG 76; HDG 72 Kilgetty 73-3;
HDG 77 Talacharan 78-5;
HDG 130 Llechryd 114-9.

Merched: Burton 257-6 HDG 210-9;
Hook 273-7 HDG 289-4.

Trefon Evans



Tîm Merched

GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio
a
Phensiarnol

15 STRYD ST IOAN, HENDYGGWYN,
SIR GAERFYRDDIN, SA34 0AN 01994 240 366

GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK

GERALDBLAINASSOCIATES.COM

@GBASSOCIATES1

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig

Hendyggwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

GWASANAETH
CEIR HENDYGGWYN

Canolfan
atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Eggsosts ayyb

Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r
Ffynnon, Hendyggwyn ar Daf

01994 240230 / 07972 725193